# CDLl2

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## 2018 - 2033

## Polisïau Rheoli Datblygiad

## Strategaeth a Ffefrir 2019

Draft

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio drwy e-bost ldp@ceredigion.gov.uk neu dros y ffôn 01545 572123**

Drafft

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Nid oes unrhyw Bolisi DM02 wedi ei gynnwys yn y CDLl | 4 |
| Teithio Cynaliadwy | 6 |
| Nid oes unrhyw DM05 wedi ei gynnwys yn y CDLl | 12 |
| Dylunio a Chreu Lleoedd o Ansawdd Uchel | 14 |
| Nid oes unrhyw DM07 wedi ei gynnwys yn y CDLl | 19 |
| Arwyddion ac Enwau Lleoedd Dwyieithog | 21 |
| Nid oes unrhyw DM09 wedi ei gynnwys yn y CDLl | 22 |
| Dyluniad a Mynediad at y Briffordd | 22 |
| Dylunio a Thirweddu | 24 |
| Nid oes unrhyw bolisi DM11 wedi ei gynnwys yn y CDLl | 27 |
| Seilwaith Cyfleustodau | 27 |
| Nid oes unrhyw Bolisi DM13 wedi ei gynnwys yn y CDLl | 30 |
| Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol | 34 |
| Cadwraeth Bioamrywiaeth Lleol | 37 |
| Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol (RIGS) | 40 |
| Tirwedd. | 44 |
| Diogelu Coed, Perthi a Choetiroedd | 50 |
| Effaith Tirwedd Datblygiad Ffermydd Gwynt yn Ardal Chwilio Strategol D | 54 |
| Diogelu a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol. | 58 |


Draft

## Sut mae'r polisïau wedi newid?

Neilltuwyd cod lliw i'r holl bolisïau Defnydd Tir a Rheoli Datblygiad. Pan fo mân newidiadau teipograffyddol yn unig wedi eu gwneud, rhoddwyd y cod lliw **GWYRDD** iddynt, a phan wnaed mân newidiadau a allai effeithio ar y defnydd o'r polisi rhoddwyd y cod lliw **OREN** iddynt. Pan gynigiwyd newidiadau mawr i'r polisi, rhoddwyd y cod lliw **COCH** iddynt. Dilëwyd rhai polisïau ac mae hyn yn cael ei wneud yn gwbl eglur yn y testun a gwnaed newidiadau cyd-destunol i'r cyfiawnhad rhesymegol ym mhob rhan o'r ddogfen hon.

Drafft

# 8. Polisïau Rheoli Datblygiad (Polisïau RhD)

8.1 Mae polisïau yn yr Adran hon yn nodi materion y mae angen eu hystyried yng nghyswllt pob datblygiad, beth bynnag yw'r math o ddefnydd sy'n cael ei gynnig. Felly bydd pob un o'r polisïau yn yr adran hon, neu rai ohonynt, yn berthnasol pa un a yw'r datblygiad ar gyfer, er enghraifft, tŷ, siop, man chwarae neu estyniad i adeilad. Mae'r materion a drafodir yn cynnwys:

- datblygu cynaliadwy (gan gynnwys maint a chyfradd, cymunedau a'r Gymraeg, trafnidiaeth ac enillion cynllunio);
- dylunio, creu lleoedd a seilwaith cyfleustodau;
- cadwraeth natur a chysylltedd ecolegol;
- tirwedd; a
- diogelu'r amgylchedd.

8.2 Nod y polisïau hyn yw ymdrin â materion lleol nad ydynt yn cael sylw digonol mewn canllawiau cenedlaethol. Pan fo canllawiau cenedlaethol yn ddigonol ar eu pen eu hunain, nid oes polisïau wedi eu cynnwys yn y CDLl.

8.3 Dylid darllen y polisïau yn yr Adran hon ar y cyd â pholisïau a nodir yn Adran 6 (Y Strategaeth) a 7 (Mathau Penodol o Gynigion Defnydd Tir).

## Datblygu Cynaliadwy

**Rheoli Effeithiau Datblygiad ar Gymunedau a'r Gymraeg.**

8.4 Mae 57.6% (Cyfrifiad 2011) o'r boblogaeth breswyl yn meddu ar ddealltwriaeth o'r Gymraeg ac felly mae'n rhan bwysig o gyfansoddiad cymdeithasol cymunedau yng Ngheredigion a dylai barhau felly.

8.5 Mae cynnal cymunedau presennol yn allweddol i hyn, ynghyd â'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysg ysgol gynradd. Yn sail i'r Strategaeth felly y mae'r egwyddor sylfaenol mai'r ffordd orau o gynnal bywiogrwydd y Gymraeg yw trwy gynnal cymunedau. Gan fod cyfran mor fawr o'r



Draft

boblogaeth bresennol yn byw mewn aneddiadau gwledig, mae Strategaeth sy'n cefnogi cymunedau gwledig yn ogystal â threfol yn hanfodol i iechyd yr iaith.

8.6 Mae'r CDLl, ynghyd â chanllawiau cenedlaethol, yn cynnig nifer o ddulliau polisi a fydd, er nad ydynt yn gysylltiedig â'r Gymraeg yn uniongyrchol, yn cael effaith gadarnhaol. Mae'r canllawiau cenedlaethol (sy'n destun adolygiad cyfnodol) yn cynnwys:

- Nodyn Cyngor Technegol 7 Polisi Cynllunio Cymru: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored.
- Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg.

8.7 Mae'n debyg mai'r angen i hybu economïau lleol iach sydd bwysicaf i gynnal cymunedau lleol a chryfhau'r iaith, a chynnig cyfleoedd trwy hynny i bobl aros yn y Sir yn hytrach na chwilio am swyddi mewn mannau eraill. Mae'r Strategaeth yn cydnabod, gan fod cyfran fawr o'r boblogaeth eisoes yn byw mewn aneddiadau gwledig, y bydd annog cyfleoedd economaidd yn agos at ble mae pobl yn byw yn cael effaith gadarnhaol ar fywiogrwydd y gymuned a'r Gymraeg (gweler Polisïau Strategol).

8.8 Mae'r math o ddatblygiad sy'n cael ei gynnig yn bwysig os yw anghenion y gymuned leol am gael eu diwallu. Bydd Polisïau CDLl S01-S05 yn helpu i sicrhau bod y lefel a'r math priodol o angen yn cael ei ddiwallu.

8.9 Polisi S05: mae Tai Fforddiadwy yn bolisi CDLl arall a fydd yn helpu'n anuniongyrchol i gefnogi'r cymunedau presennol a'r Gymraeg. Mae hyn oherwydd y gofynion meddiannaeth sydd ynghlwm i dai fforddiadwy, lle mae cysylltiad lleol yn un o'r meini prawf cymhwyso posibl. Os bydd y meddianwyr yn dod o Geredigion ei hun, mae'n debygol iawn y byddai gan lawer ohonynt ddealltwriaeth o'r Gymraeg, yn enwedig os ydynt wedi cael eu haddysgu yng Ngheredigion.

Draft

8.10 Mae polisïau eraill a fydd yn helpu i ddiogelu a chynnal agweddau diwylliannol a’r Gymraeg yn cynnwys Polisi CDLl DM08 sy’n ymwneud ag arwyddion dwyieithog.

**Polisi DM01:**

**Rheoli Effeithiau Datblygiad ar Gymunedau a’r Gymraeg**

I alluogi’r ACLl i wneud penderfyniad cytbwys ar ba un a yw datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar gydlyniant cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau, bydd Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg yn ofynnol ar gyfer ceisiadau:

1. Lle byddai’n arwain at ddatblygiad tai hap-safle newydd o fwy na 5 uned ledled y sir
2. Lle byddai’n arwain at greu menter dros 1500 milltir sgwâr mewn maint.

Amcanion: 1 – 6, 8, 11, 16, 18

8.11 Er y bwriedir y bydd yr holl fesurau a amlinellir yn y paragraffau a ragflaenodd y polisi hwn yn cynnig cymorth goblygedig i gymunedau a’r Gymraeg, er mwyn gallu gwneud penderfyniad cytbwys ar geisiadau cynllunio, efallai y bydd angen gwybodaeth gynhwysfawr am effeithiau tebygol datblygiadau ar y gymuned a’r Gymraeg.

8.12 Mae Polisi DM01 yn cynnig y dull felly y gall datblygwyr a’r ACLl ei ddefnyddio i gael gafael ar wybodaeth, yn ôl yr angen, am effaith debygol datblygiad ar y gymuned a’r Gymraeg, sy’n ei gwneud yn bosibl wedyn I benderfynu ar sut y gellir mynd i’r afael orau ag unrhyw effeithiau. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei cheisio yng nghyswllt ceisiadau lle byddai datblygiad, os caiff ei ganiatáu, yn digwydd ar gyfradd neu faint gwahanol i’r hyn a ragwelwyd ac a nodwyd ym Meini Prawf 1 a 2 Polisi DM01.



Draft

8.13 Er mwyn gallu gwneud penderfyniad cytbwys am effeithiau datblygiad arfaethedig ar gyfansoddiad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau, yn yr achosion hynny dylid paratoi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol: 'Cymuned a'r Gymraeg'. Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, dylid ystyried eu heffaith ar gymunedau mewn ffordd gyfannol, gan roi sylw dyledus i'r Gymraeg fel rhan annatod o weithgarwch a bywyd cymunedol.

8.14 Bydd yr ACLl yn gofyn am Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg dim ond os yw'n rhan o Feini Prawf 1 neu 2 Polisi DM01.

8.15 Os, ym marn yr ACLl, bod tebygolrwydd y byddai'r datblygiad yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg, ac na ellir lliniaru'r effaith hon, gallai'r ACLl wrthod y cais. Fodd bynnag, yn y lle cyntaf, bydd yr ACLl yn chwilio am fesurau lliniaru neu amrywiad i'r cynnig a fydd yn helpu i leihau effeithiau posibl.

**Nid oes unrhyw Bolisi DM02 wedi ei gynnwys yn y CDLl**

**Teithio Cynaliadwy:**

8.16 Nid yw gwaith cynllunio trafnidiaeth yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth o seilwaith yn bennaf mwyach, ond ar ei swyddogaeth o ran gwella mynediad pobl at wasanaethau, eu hiechyd a'r economi, gan geisio sicrhau dyfodol i genedlaethau'r dyfodol trwy geisio lleihau allyriadau carbon i frwydro effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy gynhesu byd-eang.

8.17 Mae Ceredigion yn sir wledig a gwasgarog iawn lle gallai fod yn anodd cyflawni trafnidiaeth gynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r sir wedi croesawu'r her o dan Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol canolbarth Cymru (TraCC).

8.18 Mae Strategaeth Aneddiadau'r CDLl yn ceisio nodi a chefnogi rhwydwaith o Ganolfannau Gwasanaeth (Polisi S01, S02 ac S03) lle bydd cyfleusterau a gwasanaethau yn fwy hygyrch i'r boblogaeth wasgaredig trwy deithio nad



Draft

yw mewn car gan gynnwys gwasanaethau cludiant cyhoeddus a chymunedol cynaliadwy ar gyfer teithiau lleol.

8.19 Mae canllawiau cenedlaethol perthnasol sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn cynnwys:

- Polisi Cynllunio Cymru (LIC) Lleoedd Actif a Chymdeithasol;
- TAN 18, Trafnidiaeth (LIC) sy'n darparu canllawiau sylweddol yn ymwneud ag Asesu Trafnidiaeth, lleoli datblygiadau yn gynaliadwy, annog cerdded a beicio a'r ddarpariaeth o gludiant cyhoeddus a mynediad cynaliadwy, gan gynnwys yng nghyswllt twristiaeth, ac ar gynllunio trafnidiaeth integredig;
- Mae TAN 12: Dylunio (LIC), yn cydnabod y dylai gwaith dylunio trafnidiaeth gymryd swyddogaethau ffyrdd ar gyfer symud ac fel 'lleoedd' i bobl i ystyriaeth; a
- *Manual for Streets*.
- Deddf Teithio Llesol Cymru 2013
- Teithio Llesol: Canllawiau Dylunio, Canllawiau ar gyfer Darparu'r Ddeddf
- Mapiau Rhwydwaith Integredig ar gyfer Aberteifi, Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan

8.20 Nid oes unrhyw bolisïau CDLl wedi eu cynnwys ar gyfer y materion canlynol gan eu bod yn cael eu trafod yn briodol yn y canllawiau cenedlaethol uchod:

| | |
|---|---|
| Polisi Cynllunio Cymru | Hybu cerdded |
| | Annog beicio |
| | Hybu cludiant cyhoeddus |
| | Rheoli traffig |
| | Symud y broses o gludo nwyddau i foddau heblaw ar y ffordd; hybu trosglwyddo moddol |

Draft

| | |
|---|---|
| | Lleoliad canolfannau dosbarthu |
| | Mynediad at ddatblygiad |

8.21 Bydd canllawiau newydd ac adolygiadau o ganllawiau yn digwydd yn ystod cyfnod y cynllun. Gwiriwch ganllawiau cenedlaethol pan fyddwch yn ymgeisio gyda'r ACLI a/neu wefan y CDLI i gael y rhestr ddiweddaraf.

8.22 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer rhanbarth TraCC yn ddogfen gyd-destunol hanfodol i ymgeiswyr cynllunio o ran strategaeth drafnidiaeth gyffredinol, o ran cynigion prosiect byrdymor a hirdymor ar gyfer Ceredigion ac o ran cyflwyno Rhaglen 5 mlynedd o brosiectau blaenoriaeth. Dyma'r sail ar gyfer ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru. Gellir cael gafael ar fanylion cyllid a gadarnhawyd ar gyfer cynlluniau arfaethedig gan gynrychiolydd TraCC Ceredigion.

**Polisi DM03:**

**Teithio Cynaliadwy**

Dylai datblygiadau sicrhau bod yr angen i deithio cyn lleied â phosibl, a chynnig cyfleoedd ar gyfer moddau trafnidiaeth cynaliadwy yng Ngheredigion a'u hybu.

Dylai darpariaeth parcio ar gyfer pob modd trafnidiaeth gyd-fynd â Chanllawiau Cynllunio Atodol Ceredigion yn seiliedig ar Safonau Parcio Cymru 2008 fel y'u diwygiwyd i fodloni amodau lleol.

Dylid darparu Asesiad Trafnidiaeth ar y trothwyon a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Asesu Trafnidiaeth. Pan fydd yr Asesiad Trafnidiaeth yn datgelu'r angen am Strategaeth Gweithredu Trafnidiaeth bydd angen sicrhau hyn trwy ymrwymiad cynllunio.

Amcanion: 6, 7, 9, 14, 16, 18



Draft

8.23 Yn unol â Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC, cydnabyddir bod arwynebedd daearyddol mawr Ceredigion a natur wasgaredig ei chymunedau yn golygu y bydd y car preifat yn parhau i chwarae rhan bwysig o ran trafnidiaeth – ond y bydd pob ffordd resymol o annog moddau eraill yn cael ei hyrwyddo yn y Sir.

8.24 Er mwyn bodloni Amcan 16 y cynllun, mae Polisi DM03 yn nodi'r gofyniad i bob datblygiad sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl ar gyfer teithio cynaliadwy yn ei ystyr ehangaf. Mae hyn yn cynnwys cynnig cyfleoedd i gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus ond hefyd cyfleoedd i symud o un modd o drafnidiaeth i un arall gan hwyluso teithiau rhannol neu gyflawn trwy foddau nad ydynt yn gar. 'Cyfnewidfa drafnidiaeth' yw'r term cyffredinol am y math hwn o ddatblygiad ac o ran y polisi hwn byddai datblygu'r rhain yn 'hybu moddau cynaliadwy'. Bydd y neilltuadau tir ar gyfer cyfnewidfeydd trafnidiaeth a nodir ar hyn o bryd yn y CDLl yn cael eu hariannu o dan y broses gynnig sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mewn gwirionedd, nid oes unrhyw gynlluniau seilwaith ar hyn o bryd y bydd cyfraniadau 'cyfunol' yn cael eu ceisio ar eu cyfer gan ddatblygiadau newydd. Mae'r polisi yn berthnasol felly i'r ddarpariaeth o seilwaith teithio cynaliadwy sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygiadau ac yn gymesur â hwy. Bydd yr ACLl yn ailystyried y polisi hwn mewn adolygiad os bydd yn penderfynu yn ddiweddarach i weithredu'r dewis o Ardoll Seilwaith Cymunedol. Gallai cyfnewidfeydd fod yn rheilffordd i fws, car i reilffordd, parcio a theithio, parcio a rhannu, parcio a beicio ac unrhyw gyfuniad arall a allai gyfrannu at leihau'r defnydd o gerbydau preifat a chael gwared ar dagfeydd traffig. Yn ogystal ag ar gyfer teithio beunyddiol ymarferol, gallai cyfnewidfeydd o'r fath chwarae rhan mewn profiadau teithio hamdden. Dylid rhoi blaenoriaeth i leoli cyfnewidfeydd trafnidiaeth cyhoeddus/cymunedol a sefydlir ar lefel strategol i Ganolfannau Gwasanaeth ac aneddiadau ar y prif lwybrau trafnidiaeth.

8.25 Dewiswyd Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan fel dynodiadau ar gyfer teithio llesol ac mae ganddynt fapiau rhwydwaith integredig.

Draft

8.26 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol: 'Safonau Parcio' yn seiliedig ar Safonau Parcio Cymru 2008 ac wedi eu diwygio i fodloni amodau lleol a nodir gan weithgor swyddogion o dan TraCC yn 2010. Cynigiwyd y dylid mabwysiadu'r canllawiau fel Canllawiau Cynllunio Atodol gan Bowys a Cheredigion.

8.27 Mae'r canllawiau yn diffinio 'Parthau' lle bydd safonau parcio penodol yn berthnasol. Bydd y rhan fwyaf o Geredigion yn cael ei nodi fel Parthau 5 a 6 (Cefn Gwlad ac Ardaloedd Gwledig Anghysbell).

8.28 Darperir Polisi ar Asesiadau Trafnidiaeth ym Mholisi Cynllunio Cymru, a cheir cyngor ymarferol manwl ar y gofyniad am Asesiad Trafnidiaeth a'i gynnwys yn TAN 18, Adran 9 ac Atodiad D. Fodd bynnag, mae gan Geredigion etifeddiaeth hanesyddol o ffyrdd o safon annigonol. Mae ganddi boblogaeth wasgaredig iawn ac mae'r cerbyd modur preifat yn dal i fod yn brif fodd o drafnidiaeth iddynt. Am y rhesymau hyn, efallai y bydd datblygiadau efallai nad ydynt yn sbarduno pryderon ar gyfer cynhyrchu teithiau mewn lleoliadau trefol mwy cyfyng o bryder oherwydd eu heffaith yng nghyd-destun Ceredigion. Am y rhesymau hyn, darperir disgrifiad yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: 'Asesiadau Trafnidiaeth ar gyfer Ceredigion' yn diffinio'r hyn y mae'r ACLl yn ei ystyried fel datblygiadau sy'n debygol o arwain at gynhyrchu teithiau sylweddol'. Cymerwyd y trothwyon o Atodiad B '*Guidance for Transport Assessments*', a gyhoeddwyd gan Adrannau'r DU dros Gymunedau a Llywodraeth Leol a Thrafnidiaeth. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn cynnig hyblygrwydd ychwanegol o ran penderfyniad a oes angen Asesiad Trafnidiaeth o dan amgylchiadau penodol.

Draft

## Seilwaith Teithio Cynaliadwy

**Polisi DM04:**

**Seilwaith Teithio Cynaliadwy**

Bydd diogelu, gwella neu ddatblygiad ategol seilwaith trafnidiaeth blaenorol neu bresennol gyda'r potensial i ddarparu ar gyfer teithio mwy cynaliadwy yn ystyriaeth berthnasol ym mhob datblygiad.
Dylai pob datblygiad gysylltu â Llwybrau Teithio Llesol yn yr aneddiadau lle maent yn bodoli yn ogystal â'u gwella a'u hymestyn.

Amcanion: 6, 7, 9, 16

8.29 Mae Polisi DM04 yn tynnu sylw ymgeiswyr at yr angen i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a'r defnydd o gludiant cyhoeddus. Dylid gwneud hyn trwy ddarparu cysylltiadau â llwybrau presennol o ddatblygiad newydd, ailosod seilwaith y rhoddwyd gorau i'w ddefnyddio pan fydd hwnnw'n gwasanaethu datblygiad newydd mewn ffordd gynaliadwy a sicrhau iechyd ac ansawdd bywyd gwell trwy gynnwys nodweddion mewn datblygiad sy'n manteisio ar gysylltiadau â moddau teithio nad ydynt yn gar ar gyfer cludo pobl a nwyddau.

8.30 Mae seilwaith trafnidiaeth sydd â'r potensial i ddarparu ar gyfer teithio mwy cynaliadwy yng nghyd-destun Ceredigion yn cynnwys rheilffyrdd a seidins rheilffordd presennol/blaenorol/nad ydynt yn cael eu defnyddio, hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau troed a chyfnewidfeydd trafnidiaeth. Gallai hefyd gyfeirio at harbyrau a dyfrffyrdd.

8.31 Yng Ngheredigion, ategir y dyheadau tymor hwy am foddau trafnidiaeth eraill ac am ailgyflwyno gwasanaethau cludo nwyddau mewn rhai lleoliadau gan gydnabyddiaeth o werth ymarferol a thwristiaeth/hamdden posibl hen reilffyrdd a deiliadau tir cysylltiedig ar gyfer beicio, cerdded a marchogaeth yn ogystal ag ar gyfer ddatblygiad twristiaeth yn seiliedig ar frwdfrydedd at

Draft

drenau locomotif. Byddai angen i gynigion posibl o'r fath gael eu gwasanaethu gan ardaloedd cyfnewidfa, felly mae'n bwysig bod seidins rheilffordd a deiliadau cyfagos hefyd yn cael eu diogelu rhag datblygiadau eraill na fyddent yn gyson â defnydd o'r fath.

8.32 Mae'r Map Cynigion yn dynodi darnau o'r pedair hen reilffordd canlynol nad ydynt wedi cael eu datblygu at ddibenion eraill. Mae'r rhain wedi'u lleoli ar lwybrau Aberaeron – Llanbedr Pont Steffan: Aberystwyth - Caerfyrddin: Aberteifi - Hendy-gwyn ar Daf a Chastellnewydd Emlyn - Caerfyrddin.

8.33 Rhoddir sylw i leoliad a dyluniad Cyfnewidfeydd Trafnidiaeth yn Astudiaeth Atkins o Gyfnewidfeydd Trefol a Gwledig, a baratowyd o dan TraCC, a allai gael ei gynnig ar gyfer ei fabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol ar y cyd ar gyfer Ceredigion, Powys a Gwynedd. Mae'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth a Llwybrau troed a beicio cyhoeddus cysylltiedig sy'n cael eu datblygu yn Bow Street ar y gweill.

8.34 Bydd seilwaith trafnidiaeth teithio cynaliadwy ychwanegol fel cyfnewidfeydd trafnidiaeth, parcio a theithio ac ati, a gynigir gan y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ond nad ydynt wedi eu hariannu hyd yma hefyd yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gynigion cynllunio. Dyma'r prosiectau nad ydynt wedi eu cadarnhau ar gyfer cyllid ar hyn o bryd, nad oes ganddynt gynigion safle cadarn eto, ond y disgwylir y byddant yn cael eu darparu yn ystod y cyfnod CDLl hyd at 2033:

- Gwelliannau Trafnidiaeth i Deithwyr;
- Cyfnewidfa/parcio a rhannu Llanrhystud;
- Gwella Trafnidiaeth Gymunedol;
- Parcio a Theithio Aberteifi;
- Mentrau Teithio Cynaliadwy a Gwelliannau Hygyrchedd;
- Nid oes unrhyw oblygiadau defnydd tir y tu allan i ffin y briffordd yn gysylltiedig â cham cyntaf Canolfan Teithio Cynaliadwy Aberystwyth: yn disgwyl manylion camau pellach y gallai fod angen rhoi sylw iddynt yn yr adolygiad o'r CDLl;

Draft

- Gwelliannau Rhwydwaith; a
- Chynnal a chadw priffyrdd o dan y Cynllun Rheoli Asedau ac wedi ei ariannu o'r gyllideb cynnal a chadw sydd angen tir y tu allan i'r briffordd – ar gyfer gwaith ar bontydd o bosibl.

8.35 Dogfen gyfreithiol yw'r Map a Datganiad Diffiniol, cofrestr o'r holl hawliau tramwy cyhoeddus yng Ngheredigion, ac fe'i cedwir yn Swyddfeydd y Cyngor ym Mhenmorfa, Aberaeron. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau geisio diogelu a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy fel adnodd hamdden ac amgylcheddol.

8.36 Bydd y Cyngor yn ceisio dilyn yr egwyddor (a gyflwynir yng Nghylchlythyr Swyddfa Cymru 5/1993 Atodiad D) y dylid rhoi ystyriaeth yn y cyfnod cynllunio manwl pan benderfynir rhoi caniatâd ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar hawl tramwy i ba un a ellir darparu llinell newydd ar gyfer y llwybr a fyddai'n dderbyniol yn gyffredinol i'r cyhoedd. Dylid osgoi'r defnydd o ffyrdd ystadau at y diben hwn pryd bynnag y bo'n bosibl. O dan Ddeddf Priffyrdd (1980) (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) gellir gwyro llwybr cyhoeddus pan ei bod yn fuddiol i wneud hynny i sicrhau buddiannau perchennog y tir y mae'r llwybr neu ffordd yn mynd drwyddo, (mae'r Cyngor yn cefnogi ceisiadau sy'n ceisio gwyro'r hawl tramwy cyhoeddus oddi wrth fuarthau fferm ar sail diogelwch) neu pan fo o fudd i'r cyhoedd.

8.37 Wrth ystyried diddymu hawl tramwy cyhoeddus, bydd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth yr effaith ar hawliau tramwy eraill yn y cyffiniau. Caniateir diddymiad hawl tramwy cyhoeddus o dan amgylchiadau eithriadol yn unig pan fo datblygwr yn gallu dangos na fyddai unrhyw leoliad arall ar gyfer adeilad yn bosibl a lle byddai'r datblygiad yn cynnig budd cymunedol a fyddai'n fwy na cholled yr hawl tramwy. Nid yw lleihau costau yn rheswm digonol i ganiatáu diddymiad.

Draft

8.38 Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yw'r prif fodd a ddefnyddir gan ALlau i nodi, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol. Bydd blaenoriaethau Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gynigion a allai amharu ar eu gweithrediad.

8.39 Efallai y bydd angen tir nad yw eisoes yn rhan o'r Map Diffiniol neu wedi ei nodi fel llwybrau Mynediad Agored at ddibenion fel darparu mynediad agored neu fynediad sy'n gysylltiedig â phrosiect, amwynder neu gyfleusterau parcio/cyfnewidfa.

**Nid oes unrhyw DM05 wedi ei gynnwys yn y CDLl**

## Dylunio, Creu Lleoedd a Seilwaith Cyfleustodau

8.40 Mae cynnal a gwella amgylchedd adeiledig ansawdd uchel Ceredigion yn bwysig dros ben. Mae cymeriad pennaf wledig y Sir yn ei gwneud yn arbennig o bwysig bod datblygiadau newydd yn cael eu lleoli mewn modd sensitif, gan ategu ei amgylcheddau a bod yn arloesol ac o ansawdd uchel o ran ei ddyluniad. Gall seilwaith sy'n ofynnol ar gyfer darparu cyfleustodau ddylanwadu'n sylweddol ar gynllun a dyluniad cyffredinol cynllun ac felly mae'n briodol ei ystyried ochr yn ochr ag egwyddorion dylunio a chreu lleoedd.

8.41 Trwy sicrhau datblygu cynaliadwy, bydd Ceredigion yn gallu ymateb yn gadarnhaol i heriau sy'n codi yn yr 21ain ganrif (gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd).

8.42 Trwy gyflwyno cais am benderfyniad ynghylch pa un a yw cynnig wedi ei gynnwys o dan Hawliau Datblygu a Ganiateir, bydd y Cyngor yn disgwyl bod yr ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'r holl egwyddorion dylunio a restrir ym Mholisïau DM01, DM06, DM10 a DM13 cyn cyflwyno'r cais hwn.



Draft

8.43 Mae canllawiau cenedlaethol perthnasol sy'n ymwneud â dylunio, creu lleoedd a seilwaith yn cynnwys:

- Polisi Cynllunio Cymru (LlC) Pobl a Lleoedd: Llesiant trwy Greu Lleoedd, Lleoedd Unigryw a Naturiol
- TAN 12: Dylunio (LlC),
- TAN 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd (LlC);
- TAN 19: Telathrebu (LlC);
- TAN 22: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy (LlC);
- TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (LlC)
- Tan 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (LlC)
- Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010;
- Cylchlythyr Swyddfa Cymru 10/99: *Planning Requirement in Respect of the Use of Non Mains Sewage incorporating Septic Tanks in New Development*; a
- Map Llifogydd Dŵr Wyneb (Asiantaeth yr Amgylchedd).

Mae TAN 12 yn cynnig cyngor ar hybu cynaliadwyedd trwy ddylunio a sut i gyflawni'r datganiadau dylunio a mynediad gorfodol.

8.44 Nid oes unrhyw bolisïau CDLl wedi eu cynnwys ar gyfer y materion canlynol gan eu bod wedi eu trafod yn ddigonol gan y canllawiau cenedlaethol uchod:

| | |
|---|---|
| Adeiladau Rhestredig | Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (2015), TAN 24 |
| Ardaloedd Cadwraeth | Polisi Cynllunio Cymru<br>TAN 24 |
| BREEAM | Polisi Cynllunio Cymru |
| Perygl Llifogydd | TAN 15 – Dangosir aneddiadau a gyfyngir gan Barthau Llifogydd ar y Map Cyfyngiadau |
| Carthffosiaeth | Polisi Cynllunio Cymru, a |

Draft

| | |
|---|---|
| | Chylchlythyr Swyddfa Cymru 10/99: *Planning Requirement in Respect of the Use of Non Mains Sewage incorporating Septic Tanks in New Development* |
| Telathrebu | TAN 19 |

8.45 Bydd canllawiau newydd ac adolygiadau o ganllawiau yn digwydd yn ystod cyfnod y cynllun. Gwiriwch ganllawiau cenedlaethol wrth ymgeisio gyda'r ACLI a/neu ar wefan y CDLI i gael y rhestr fwyaf cyfredol.

**Dylunio a Chreu Lleoedd o Ansawdd Uchel**

**Polisi DM06:**
**Dylunio a Chreu Lleoedd o Ansawdd Uchel**

Dylai datblygiad roi ystyriaeth lawn i gyd-destun ei leoliad a'i amgylchoedd a chyfrannu'n gadarnhaol tuag ato. Dylai datblygiad adlewyrchu dealltwriaeth eglur o egwyddorion dylunio a'r cyd-destun ffisegol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol. Dylai datblygiad:

1. Hybu dylunio arloesol gan roi sylw i natur unigryw leol a threftadaeth ddiwylliannol o ran ffurf, dyluniad a deunydd;
2. Ategu'r safle a'i amgylchiadau o ran cynllun, gan barchu golygfeydd tuag at y safle ac oddi wrtho, a chynhyrchu ffurf gydlynus o ran maint, uchder a chymesuredd ffurf adeiledig bresennol;
3. Cyfeirio pan fo'n briodol at batrymau a dwyseddau'r cynllun presennol gan gynnwys newid lefelau a nenlinellau amlwg;
4. Cadw nodweddion naturiol pwysig ynghyd â sicrhau'r defnydd o

Draft

dirweddu caled a meddal o ansawdd da a chynnwys cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol;

5. Darparu amgylchedd diogel drwy sicrhau bod dyluniad adeiladau a seilwaith cysylltiedig yn ystyried egwyddorion diogelwch gan gynnwys; i. Diogelwch Cymunedol trwy Secured by Design; ii. Diogelwch priffyrdd, cerddwyr a beicio yn unol â pholisi DM24
   i. diogelwch cymunedol trwy Secured by Design;
   ii. diogelwch priffyrdd, cerddwyr a beicio yn unol â pholisi DM24.

6. Cael ei ddylunio i sicrhau amgylchedd croesawgar sy'n annog symudiad drwodd ac eglurder priodol ac sy'n cynnig synnwyr o le.

7. Adlewyrchu swyddogaeth y safle o ran ei leoliad cyffredinol ac o fewn y safle ei hun.

8. Cyfrannu at greu cymunedau cymysg a chymdeithasol gynhwysol sy'n darparu ar gyfer iechyd, addysg, hamdden, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, ac anghenion cymdeithasol pob rhan o'r gymuned;

9. Diogelu amwynder meddianwyr adeiladau cyfagos rhag niwed sylweddol o ran preifatrwydd, sŵn a golygfa;

10. Annog ailddefnyddio deunyddiau pryd bynnag y bo hynny'n bosibl a sicrhau bod deunyddiau newydd, pan fyddant yn cael eu defnyddio, yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal;

11. Bydd y CDLl yn helpu i sicrhau bod datblygiad yn rhoi sylw i oblygiadau'r newid yn yr hinsawdd trwy ei gwneud yn ofynnol bod datblygiad y gellir ei gyfiawnhau yn y parth llifogydd yn gydnerth ac yn hyblyg i effeithiau llifogydd; a bod cynaliadwyedd hirdymor y datblygiad wedi ei gymryd i ystyriaeth;

12. Cynnwys seilwaith ar gyfer telathrebu a gwybodaeth fodern pan fo

Draft

hynny'n ymarferol; a

13. Rhoi sylw i Ddatganiadau Grŵp Anheddiad, Canllawiau Cynllunio Atodol, Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth ac unrhyw ddogfennau ategol perthnasol eraill.

Amcanion: 6, 7, 11 – 14, 16, 18

8.46 Nod Polisi DM06 yw helpu i ddarparu Amcanion 6 a 12 trwy gydnabod bod ystyriaethau dylunio yn hollbwysig i ymddangosiad yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Gall dylunio da ddiogelu a gwella ansawdd amgylcheddol hefyd.

8.47 Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod pob datblygiad nad yw'n breswyl sy'n fwy na 1000 metr sgwâr yn bodloni safonau BREEAM penodedig (gweler y ddogfen BREEAM briodol e.e. BREEAM Swyddfeydd, BREEAM Manwerthu, BREEAM Wedi'i Deilwra ac ati). Mae datblygu cynaliadwy yn gysylltiedig â materion cymdeithasol yn ogystal â rhai amgylcheddol. Mae datblygiad newydd yn cynnig cyfle i greu lleoedd sydd wedi eu dylunio ar gyfer y gymuned, sy'n annog cydlyniant cymdeithasol trwy gael amgylchedd sy'n rhoi trigolion a rhyngweithio cymunedol yn gyntaf. Gellir gwneud hyn trwy ddarparu cyfleusterau cymunedol fel neuadd gymunedol yn rhan o'r datblygiad, neu'n fwy rhwydd trwy ddylunio'r datblygiad mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn darparu amgylchedd diogel a deniadol.

8.48 Un elfen bwysig i'w hystyried yw'r effaith y bydd y datblygiad yn ei chael ar yr ardal y bydd y datblygiad yn cael ei leoli ynddi, nid yn unig o ran y stryd neu'r ffordd ei hun ond hefyd o ran sut y mae'n cyd-fynd â'r anheddiad yn ei gyfanrwydd. Dylid rhoi ystyriaeth i ba un a yw'r safle wedi ei leoli mewn neu'n agos at Ardal Gadwraeth neu Adeilad Rhestredig (gweler canllawiau cenedlaethol) ac i briodweddau tirwedd yr ardal (gweler Polisïau DM17-DM20).

Draft

8.49 Trwy werthuso’r ffurf adeiledig bresennol, gall yr ymgeisydd sicrhau y gall dyluniad y datblygiad newydd ymateb yn gadarnhaol i’r ffurf bresennol a’i gwella. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i ddatblygiad newydd efelychu’r hyn sy’n bodoli eisoes; anogir dylunio arloesol ond ni ddylai fynd yn groes i’r ffurf draddodiadol sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal.

8.50 Anogir datblygiadau sydd wedi eu dylunio yn arloesol gan y gallant helpu i sicrhau balchder lleol a chreu synnwyr o le. Gall y defnydd o bensaernïaeth fodern fod yn llwyddiannus os caiff y berthynas rhwng y ffurf adeiledig bresennol ei hadlewyrchu. Er enghraifft, mae’r defnydd o gerrig, llechi a phren naturiol yn amlwg drwy Geredigion, a gall defnyddio’r deunyddiau hyn ochr yn ochr â rhai mwy modern fel dur a gwydr helpu i gysylltu dwy ffurf wahanol iawn, gan ganiatáu i’r datblygiad newydd adlewyrchu’r ffurf adeiledig bresennol ac arloesi ar yr un pryd.

8.51 Mae Datganiad Dylunio a Mynediad yn ofynnol yn rhan o gynigion datblygu ar gyfer Ceisiadau Rhestredig a Mawr. Mae’r Datganiad Dylunio a Mynediad yn cynnig cyfle i’r ymgeisydd ddangos sut y mae egwyddorion dylunio newydd wedi cael eu hystyried. Dylai elfen ddylunio’r Datganiad Dylunio a Mynediad nodi’n benodol sut y mae’r dyluniad arfaethedig yn cyd-fynd â’r ardal. Pa un a oes angen Datganiad Dylunio a Mynediad ai peidio, dylai diogelwch ar y priffyrdd gael ei ystyried yn rhan o bob cynnig datblygu. Mae’n rhaid i bob cais cydsyniad ar gyfer Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth gael ei ategu gan Ddatganiad o’r Effaith ar Dreftadaeth. Mae rhagor o gyfarwyddyd ar gynnal Asesiad o’r Effaith ar Dreftadaeth a pharatoi Datganiad o’r Effaith ar Dreftadaeth ar gael yma: https://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/makingchanges/heritageimpactstatements/?lang=cy

8.52 Wrth ystyried treftadaeth ddiwylliannol, dylai ymgeiswyr gyfeirio at LANDMAP. Un o’r haenau agwedd yw Tirweddau Diwylliannol sy’n ystyried y berthynas sy’n bodoli rhwng pobl a lleoedd a sut y mae pobl wedi rhoi ystyr i leoedd. Os hoffech ragor o wybodaeth, ewch i https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-

Draft

sectors/planning-and-development/evidence-to-inform-development-planning/landmap-the-welsh-landscape-baseline/?lang=cy

8.53 Dylid cyfeirio at ddogfen 'Secured by Design' Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer canllawiau ar ddylunio mannau sy'n ddiogel. Mae'n canolbwyntio ar atal trosedd ar y camau dylunio, cynllun ac adeiladu, fel annog ffryntiadau bywiog ar lefel daear, yn enwedig pan nad yw datblygiad yn un preswyl (Os hoffech ragor o gyfarwyddyd, ewch i http://www.securedbydesign.com).

8.54 Dylai ymgeiswyr gyfeirio hefyd at y Datganiad Grŵp Anheddiad (Canllawiau Cynllunio Atodol) perthnasol y CDLl gan fod y rhain yn cynnwys gwybodaeth sy'n benodol i Ganolfan Wasanaeth a'i Grŵp Anheddiad.

8.55 Bydd rhagor o ganllawiau yn cael eu darparu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: 'Amgylchedd Adeiledig'. Dylid ystyried cyfeirio at unrhyw friffiau dylunio penodol i le a gymeradwywyd neu newydd. Bydd pob dogfen o'r fath ar wefan y Cyngor.

**Yr Amgylchedd Hanesyddol**

8.56 Mae gwybodaeth fanwl am yr Asedau Treftadaeth canlynol ar gael gan y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol sy'n cael ei reoli a'i gynnal gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed.

- Henebion Cofrestredig.
- Adeiladau Rhestredig.
- Ardaloedd Cadwraeth.
- Parciau a Gerddi Rhestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig.
- Meysydd Brwydr Hanesyddol.
- Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol ac Arbennig.
- Llongddrylliadau
- Safleoedd Archaeolegol
- Adeiladau a nodweddion hanesyddol annynodedig eraill

Draft

8.57 Dylid rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth a gedwir ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol er mwyn nodi nodweddion neu ardaloedd lleol a allai gael eu heffeithio gan gynigion datblygu.

8.58 Ceir 12 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Ngheredigion:

- Llanllŷr, Llanfihangel Ystrad - Gradd II
- Gardd Furiog Pigeonsford, Llangrannog – Gradd II
- Alltyrodyn, Llandysul – Gradd II
- Prifysgol Cymru, Aberystwyth: Plas Penglais, Campws Penglais a Champws Llanbadarn; Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Gradd II*
- Derry Ormond, Llangybi – Gradd II
- Hafod, Ysbyty Ystwyth; Pontarfynach – Gradd I
- Llanerchaeron, Ciliau Aeron – Gradd II
- Nanteos, Llanfarian – Gradd II*
- Trawsgoed – Gradd II
- Lodge Park, Llangynfelyn – Gradd II
- Coedmor, Llangoedmor – Gradd II
- Castell Aberteifi – Gradd II

**Nid oes unrhyw DM07 wedi ei gynnwys yn y CDLI**

8.59 Dynodwyd Ardaloedd Cadwraeth oherwydd diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig a gellid dynodi mwy yn ystod cyfnod y cynllun. Bydd manylion y rhain yn cael eu rhoi ar wefan y Cyngor ac yn cael eu cynnwys yn rhan o unrhyw adolygiad o'r CDLI. Ceir tair ar ddeg o Ardaloedd Cadwraeth yng Ngheredigion ar hyn o bryd, sef:

Aberystwyth;
Aberaeron;
Adpar;
Aberteifi;
Cenarth;
Llanbedr Pont Steffan;



Draft

Llanbadarn Fawr;

Llanddewi Brefi;

Llandysul;

Llanrhystud;

Llansantffraid;

Ceinewydd; a

Tregaron.

8.60 Mae canllawiau cenedlaethol yn ddigon manwl o ran datblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth. Polisi Cynllunio Cymru, Pennod 6, TAN 24: yr amgylchedd hanesyddol a chanllawiau arfer gorau ar:

- Asesu'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru
- Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru
- Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru
- Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru

8.61 Mae Gwerthusiadau neu Adroddiadau Ardaloedd Cadwraeth eisoes wedi eu datblygu i gyd-fynd â nifer o'r dynodiadau, bydd eraill yn cael eu llunio yn y dyfodol ac yn cael eu cyhoeddi fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Dylid cyfeirio at yr Adroddiadau hyn gan y byddant yn cynnig gwybodaeth am y topograffi, y lleoliad tirwedd, hanes, adeiladau a ffurfiadau aneddiadau'r Ardal. Gallai'r Adroddiadau hefyd dynnu sylw at nodweddion negyddol sy'n tynnu oddi wrth briodweddau arbennig yr Ardal ac argymell ffyrdd ymlaen i ddiogelu a gwella'r ardal ymhellach. Pan fo copïau o Werthusiadau ar gael, gellir dod o hyd iddynt ar wefan y Cyngor.

8.62 I ddarganfod pa un a yw eich eiddo mewn Ardal Gadwraeth, cysylltwch â'r ACLl neu ewch i system fapio ryngweithiol y Cyngor yn http://www.ceredigion.gov.uk/

Draft

## Arwyddion ac Enwau Lleoedd Dwyieithog

**Polisi DM08:**

**Arwyddion ac Enwau Lleoedd Dwyieithog**

Bydd caniatâd ar gyfer arwyddion yn cael ei roi cyn belled nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol, diwylliannol ac ieithyddol yr ardal, ac yn gwella'r cymeriad hwn yn gadarnhaol.

Amcanion: 6, 8, 11

8.63 Mae Polisi DM08 yn annog ac yn cefnogi'r defnydd o arwyddion a hysbysebion dwyieithog, gan gynnwys defnyddio enwau Cymraeg ar gyfer strydoedd, ystadau tai a busnesau newydd. Mae hyn yn helpu i fodloni rhannau o Amcan 6 o ran hybu synnwyr unigryw o le ac Amcan 8 trwy gyfrannu at hybu cymunedau dwyieithog.

8.64 Mae'r polisi yn cefnogi Cynllun y Gymraeg y Cyngor a baratowyd o dan Fesur y Gymraeg 2011 sy'n hybu ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg ar gyfer strydoedd, ystadau tai a busnesau a safleoedd manwerthu newydd.

8.65 Mae'r defnydd o arwyddion dwyieithog yn helpu i bwysleisio natur unigryw Cymru. Dylai hysbysebion ac arwyddion ddangos cydraddoldeb rhwng yr ieithoedd. Dylai arwyddion mewnol fod yn ddwyieithog hefyd.

8.66 Dylid rhoi sylw hefyd i'r Rhestr Statudol o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru a'u harwyddocâd diwylliannol i gynigion datblygu.

8.67 Gall y Dirwedd Ddiwylliannol gynnig man cychwyn i ddatblygwyr sy'n chwilio am enwau lleoedd sy'n unigryw i'r ardal leol. Gellir defnyddio'r system LANDMAP fel adnodd ar gyfer cael gafael ar wybodaeth o'r fath. Mae Nodyn Canllawiau Gwybodaeth 4 LANDMAP: LANDMAP a Thirwedd Ddiwylliannol Cymru yn cynnwys canllawiau ar ddefnyddio setiau data Tirwedd Ddiwylliannol LANDMAP.

Draft

**Nid oes unrhyw DM09 wedi ei gynnwys yn y CDLl**

**Polisi DM24:**
**Dyluniad a Mynediad at y Briffordd**

Dylai dyluniad a chynllun datblygiad:

1. Hybu buddiannau cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr cludiant cyhoeddus gan gynnwys eu diogelwch.
2. Cynnwys seilwaith i ddiwallu anghenion mynediad pob defnyddiwr trafnidiaeth, gan gynnwys cerddwyr a beicwyr a'r rhai ag anableddau neu broblemau symudedd.
3. Bodloni gofynion mynediad at y briffordd ac ar gyfer datblygiadau o 5 neu fwy o unedau annedd, i gael eu gwasanaethu gan ffordd sy'n bodloni safonau y gellir eu mabwysiadu.

8.68 Darperir canllawiau pellach gan:

| | |
|---|---|
| TAN18: Trafnidiaeth | Gofynion gwelededd |
| Canllawiau i Gymru Gyfan ar Ddylunio Ffyrdd mewn Stadau Newydd a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym 1977 | Seilwaith ffyrdd derbyniol |
| Llawlyfr Dylunio Teithio Llesol | Nodweddion dylunio a mesurau gostegu traffig |
| *Manual for Streets* I a II | |
| *The Design Manual for Roads and Bridges* (DMRB) | Dyma'r safon berthnasol lle gallai datblygiadau effeithio ar gefnffyrdd. |

Draft

8.69 Mae Polisi DM24 yn tynnu sylw at bwysigrwydd ‘symudiad’ fel elfen hanfodol o ddylunio da. Mae’r polisi yn helpu i gyflawni elfennau o Amcan 6 drwy annog bod pob elfen o hygyrchedd yn cael eu hystyried yn rhan o ddatblygiad newydd, a chydnabod y gwahaniaeth rhwng lleoedd mewn gwahanol rannau o’r Sir.

8.70 Mae ‘symudiad drwodd’ yn ymwneud â’r gallu i symud trwy ofod penodol e.e. symudiad trwy ystâd breswyl. Gallai lefel y symudiad sydd ar gael amrywio rhwng pob math o ddarpariaeth o fynediad. Er enghraifft, gellid annog ‘symudiad drwodd’ beiciau ar ystâd dai er efallai fod symudiad drwodd ceir wedi ei gyfyngu. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw dangos bod y datblygiad yn ‘eglur’. Mae eglurder yn ymwneud ag i ba raddau y gall pobl ddeall cynllun lle a chanfod eu ffordd o fewn a thrwy’r lle hwnnw.

8.71 Un o elfennau hanfodol dylunio da yw egwyddorion dylunio ‘cynhwysol’, gan ddarparu mynediad i bob defnyddiwr e.e. mynediad cadair olwyn, mynediad gwell i bobl ddall, creu lle i deuluoedd (cadeiriau gwthio, plant bach).

8.72 Bydd sut y mae symudiad yn cael ei ymgorffori yn y dyluniad cyffredinol yn dibynnu ar swyddogaeth y datblygiad arfaethedig. Mae hyn yn ymwneud â swyddogaeth y lle, h.y. a yw’r lle ar gyfer cerddwyr yn bennaf neu ar gyfer ceir. Trwy ystyried hyn, gall datblygu adlewyrchu’r prif ddefnyddiwr, e.e. os yw’n ddatblygiad preswyl, gall cael symudiad cerbydau arafach a strydlun mwy diddorol (plannu coed, seddi ac ati) helpu i bwysleisio ei fod ar gyfer pobl yn gyntaf a cheir yn olaf.

8.73 Er mwyn gwella cyfleoedd ar gyfer trafnidiaeth trwy foddau nad ydynt yn gar, dylai datblygiad gysylltu â llwybrau beicio a llwybrau troed presennol pan fo hynny’n bosibl. Cymeradwyir hyn ymhellach yn Adran 5 TAN 12: Dylunio. Gellir dod o hyd i wybodaeth am ble mae’r darpariaethau hyn yn bodoli ar y Map Diffiniol, sy’n dangos yr holl hawliau tramwy swyddogol yn y Sir ac sy’n cael ei gynnal a’i reoli gan Adran yr Arfordir a Chefn Gwlad y

Draft

Cyngor. Bydd hefyd yn bwysig cysylltu ag unrhyw lwybrau troed cyfagos. Cedwir manylion llwybrau troed gan Adran Priffyrdd y Cyngor.

8.74 Pan fo datblygiad at ddibenion nad ydynt yn rhai preswyl e.e. siop, dylid dylunio'r adeilad fel bod ei bresenoldeb yn rhyngweithio â'r stryd ac yn cynnig 'ffryntiad bywiog' tuag at y gofod cyhoeddus. Er enghraifft, mae ffenestri yn caniatáu i bobl fod yn weledol y tu mewn i'r siop a'r tu allan iddi. Ateb arall allai fod i gaffi gael seddi allan yn yr awyr agored. Dylai lefel y ffryntiad bywiog fod yn gysylltiedig â phwysigrwydd y stryd. Gallai cael ffryntiad gwag arwain at gynnydd i fandaliaeth h.y. graffiti a gall 'farweiddio' stryd trwy dorri ar barhad wyneb y stryd (gweler hefyd Bolisi LU21).

**Dylunio a Thirweddu**

**Polisi DM10:**

**Dylunio a Thirweddu**

Dylai pob cais, ac eithrio ar gyfer datblygiadau deiliaid tai a fydd yn cael effaith ar y dirwedd, gael ei ategu gan gynllun tirweddu. Dylai'r cynllun tirweddu:

1. Ddangos sut y mae'r datblygiad arfaethedig yn parchu cyfuchliniau naturiol y dirwedd;

2. Dangos sut y mae'r datblygiad arfaethedig yn parchu ac yn diogelu golygfeydd lleol a strategol;

3. Parchu, cadw ac ategu unrhyw nodweddion naturiol cadarnhaol presennol, tirweddau, neu nodweddion eraill ar y safle;

4. Nodi coed, perthi, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffig i'w cadw;

Draft

5. Rhoi cyfiawnhad ar gyfer amgylchiadau lle na ellir osgoi colli/cael gwared ar goed, perthi, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffig presennol a rhoi manylion nodweddion i'w disodli;

6. Rhoi manylion unrhyw dirweddu newydd arfaethedig ynghyd â rhaglen raddol o blannu;

7. Dangos bod unrhyw blannu newydd arfaethedig yn cynnwys planhigion a choed o rywogaethau cynhenid o darddiad lleol yn bennaf ac nad yw'n cynnwys unrhyw rywogaethau estron goresgynnol yn y tirweddu;

8. Sicrhau bod y detholiad o rywogaethau a lleoliad plannu unrhyw goed yn caniatáu iddynt dyfu i'w huchder aeddfed heb amharu ar adeiladau, gwasanaethau a phlannu arall cyfagos; a

9. Rhoi manylion unrhyw dirweddu arwyneb caled.

Amcanion: 6, 9, 11 – 14, 18

8.75 Mae Polisi DM10 yn cydnabod y swyddogaeth bwysig sydd gan dirweddu i'w chwarae mewn unrhyw ddatblygiad sydd wedi ei ddylunio'n dda. Mae'n cefnogi Amcan 6 trwy wella'r ffurf adeiledig trwy ei gwneud yn ofynnol i bob agwedd ar y dirwedd gael ei hystyried mewn datblygiad newydd, gan sicrhau y gall gael ei ddiogelu a'i ddefnyddio i wneud datblygiad newydd yn fwy deniadol.

8.76 Mae'r polisi yn cydnabod bod ffurf adeiledig a phatrymau anheddiad presennol yn aml wedi esblygu yn rhannol o ganlyniad i'r dirwedd a'r topograffi. Mae'r ffordd y mae datblygiad yn berthnasol i'r ardal o'i amgylch



Draft

hefyd yn hanfodol i broses ddylunio datblygiadau yn y dyfodol felly, os yw'n mynd i ffitio i mewn yn anymwthiol.

8.77 Er mwyn helpu i sicrhau bod datblygiad newydd yn cyd-fynd â'i amgylchoedd, bydd angen cynllun tirwedd. Nid yw cynllun tirwedd yn ofynnol ar gyfer ceisiadau deiliaid tai fodd bynnag e.e. datblygu garej, cwt neu estyniad. Dylai tirweddu fod yn gysylltiedig â maint a natur y datblygiad.

8.78 Dylai'r cynllun tirweddu gyd-fynd â Pholisi DM20: Diogelu Coed, Perthi a Choetiroedd a chofleidio cymeriad y dirwedd naturiol bresennol gan sicrhau bod cyn lleied â phosibl o unrhyw effeithiau negyddol ar y dirwedd a dylai:

- Nodi pa nodweddion tirwedd sydd eisoes yn bodoli ar y safle e.e. perthi, coed ac ati;
- Nodi nodweddion i gael eu symud/cael gwared arnynt, yn ôl yr angen; a
- Rhestru plannu newydd a nodweddion eraill i'w rhoi ar waith.

8.79 Dylai'r cynllun tirweddu fod yn gysylltiedig nid yn unig â thirweddu 'meddal' h.y. coed, perthi, plannu ac ati ond hefyd tirweddu caled h.y. ffyrdd ystadau, waliau carreg, tramwyfeydd, a phalmentydd.

8.80 Dylai'r cynllun gynnwys y defnydd o arwyneb caled athraidd. Pan nad yw hyn yn bosibl, dylid cynnwys esboniad yn rhan o'r cyflwyniad. Arwynebau sy'n caniatáu i ddŵr ddraenio i mewn iddynt yw arwynebau athraidd, ac felly maent yn lleihau'r perygl o lifogydd dŵr wyneb. Mae'r defnydd o systemau o'r fath yn aml yn fwy deniadol na dulliau traddodiadol a gallant wella ansawdd gweledol y datblygiad.

8.81 Mae'n bosibl y gallai tirweddu fodloni llawer o ofynion y CDLl. Er enghraifft, gall hefyd arwain at enillion bioamrywiaeth ac felly mae'n cefnogi Amcan 12 ac yn bodloni gofynion Polisïau DM14 a DM15. Gallai hefyd helpu o ran

Draft

gweithredu SDCau a darpariaeth o fannau agored (gweler Polisïau DM13 ac LU24).

8.82 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol: 'Amgylchedd Adeiledig' yn cynnwys cyngor pellach ar dirweddu.

**Nid oes unrhyw bolisi DM11 wedi ei gynnwys yn y CDLl**

**Seilwaith Cyfleustodau**

**Polisi DM12:**
**Seilwaith Cyfleustodau**

Bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu cyn belled ag y bod;

1. Seilwaith addas yn bodoli i hwyluso'r datblygiad ac nad oes unrhyw broblemau capasiti, naill ai gyda'r seilwaith ei hun nac o fewn y cyrff dŵr sy'n cael eu heffeithio; neu

2. Ble mae cyfleusterau seilwaith neu lefelau capasiti yn annigonol ac felly mae angen seilwaith newydd//uwchraddio/gwaith:
   i. nad yw'r cyrff dŵr sy'n derbyn wedi cyrraedd eu capasiti naturiol i amsugno a chymathu effeithiau echdynnu a gollyngiadau, oni bai y gallai'r seilwaith newydd/uwchraddio/gwaith ddatrys y problemau hyn; ac
   ii. y gellir gwneud cyfraniadau neu ddarpariaeth breifat i sicrhau bod y seilwaith newydd/uwchraddio/gwaith wedi eu cwblhau cyn cychwyn y datblygiad; neu
   iii. pan fo gwaith a gynlluniwyd yn hysbys, nad yw datblygiad yn digwydd tan fod gwaith uwchraddio wedi ei wneud neu fesurau interim wedi eu hawgrymu a'u cytuno gan yr Awdurdod Lleol.

Draft

3. Bod gwasanaethau yn cael eu cyfeirio'n danddaearol cyn belled â phosibl:
    i. I sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ddifrod neu darfu ar yr amgylchedd, ac
    ii. Os na ellir lleoli gwasanaethau o dan y ddaear, dylid rhoi cyfiawnhad o pam nad yw hyn yn bosibl yn rhan o'r cais; a

4. Bod y ddarpariaeth yn ddull trefnus a chydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau yn effeithiol.

Bydd mesurau interim yn cael eu hystyried dim ond pan fo gwelliannau hysbys wedi eu trefnu ar gyfer y garthffos gyhoeddus. Pan ystyrir bod mesurau interim yn briodol, bydd amodau cynllunio yn cael eu cymhwyso neu rwymedigaethau cynllunio yn cael eu ceisio trwy drafodaethau, i wneud cysylltiad â'r garthffos gyhoeddus yn ofynnol ar ôl cwblhau'r gwelliannau angenrheidiol. Ni ddylai unrhyw gynlluniau gwella arfaethedig gael effaith andwyol sylweddol ar yr amgylchedd, amwynder nac iechyd y cyhoedd. Ni ddylai'r mesurau interim effeithio ar waith yn y dyfodol ychwaith a dylent sicrhau bod gwaith a chostau cyn lleied â phosibl yn y dyfodol.

Amcanion: 6, 12, 14, 17, 18

8.83 Nod polisi DM12 yw sicrhau bod seilwaith digonol a phriodol ar waith neu y bydd ar waith i wasanaethu datblygiad arfaethedig. Bydd Polisi DM12 yn helpu i sicrhau bod Amcan 17 yn cael ei ddarparu'n llawn. Mae'n ymdrin â darpariaeth seilwaith o ran y cyfleustodau canlynol;

- Dŵr;
- Carthffosiaeth;
- Pŵer h.y. trydan, nwy ac ati; a
- Thelathrebu.

8.84 Ymdrinnir â Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) gan Ddeddfwriaeth Genedlaethol. Mae darpariaethau seilwaith eraill fel ysgolion, cyfleusterau iechyd a thrafnidiaeth wedi eu cynnwys o dan Bolisïau LU22-LU24 a DM03-DM04.

8.85 Mae gan rai rhannau o Geredigion broblemau darparu seilwaith o ran adnoddau dŵr, capasiti carthffosiaeth ac ati. Cyfeiriwch at ddarparwr y gwasanaeth seilwaith cyn gynted â phosibl i ddarganfod y sefyllfa gyfredol o ran problemau rhwydwaith a chapasiti gwaith trin dŵr gwastraff. Mae'r Datganiadau Grŵp Anheddiad (Canllawiau Cynllunio Atodol) yn egluro fodd bynnag pan fo cyfyngiadau penodol i safle ffisegol yn hysbys, fel lle mae safle yn cael ei groesi gan brif bibell ddŵr bresennol. Hefyd, cynghorir y dylid cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl i sicrhau bod trwyddedau echdynnu/trwydded amgylcheddol ar gael pan fo angen ac nad oes unrhyw broblemau biolegol na chapasiti hydrolig gyda'r cyrff dŵr sy'n cael eu heffeithio.

8.86 Caiff cysylltiadau newydd neu waith uwchraddio ar rwydweithiau neu waith carthffosiaeth gyhoeddus presennol eu gwneud gan DCWW yn seiliedig ar raglen 5 mlynedd.

8.87 Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r darparwyr cyfleustodau i fynd i'r afael â phroblemau capasiti yn ystod cyfnod y cynllun. Fodd bynnag, os na all y darparwr gyflawni'r gwelliannau gofynnol neu wasanaethau newydd mewn pryd, mae dewis i'r datblygwr ddarparu'r system ofynnol neu ddarparu cyfraniadau tuag at waith uwchraddio. Mae'r dewis hwn yn bwysig iawn yng Ngheredigion i helpu i fodloni Amcan 17 a'r Strategaeth gyffredinol. Heb y dull hwn, efallai na fydd anghenion a nodwyd (e.e. tai) y Sir yn cael eu diwallu yn ystod cyfnod y cynllun.

8.88 Cydnabyddir felly y gallai fod angen mesurau interim mewn rhai achosion er mwyn caniatáu i ddatblygiad ddigwydd. Bydd yr ACLl yn ceisio cyngor sefydliadau perthnasol, er enghraifft Cyfoeth Naturiol Cymru a DCWW o ran mesurau posibl. Dylid datblygu unrhyw fesur interim fel nad yw'n atal

Draft

datblygiad system newydd a bod systemau dros dro yn cael eu lleoli yn briodol e.e. fel eu bod yn hawdd eu cyrraedd.

8.89 Dylai ymgeiswyr ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru a DCWW ynghylch pa un a oes capasiti a seilwaith ar gyfer eu datblygiad cyn gwneud cais.

8.90 Mae Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SDCau) yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad sy'n fwy na 100 metr sgwâr neu ar gyfer mwy nag un tŷ geisio cymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy. Mae rhagor o wybodaeth am Egwyddorion SDCau a'r broses ymgeisio ar gael ar wefan y Cyngor: http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/cynllunio-rheoli-adeiladu-a-chorff-cymeradwyo-draeion-cynaladwy-ccs/corff-cymeradwyo-draenio-cynaliadwy-sab/

**Nid oes unrhyw Bolisi DM13 wedi ei gynnwys yn y CDLl**

## Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden

8.91 Nodir polisïau sy'n rhoi manylion am y ddarpariaeth o elfennau cymunedol neu hamdden yn rhan o fathau eraill o ddatblygiad e.e. man chwarae yn rhan o safle tai, yn Adran 7 (Mathau Penodol o Gynigion Defnydd Tir). Mae polisïau yn ymwneud â newid defnydd cyfleusterau cymunedol neu hamdden wedi eu cynnwys yn yr adran honno hefyd. Nodir manylion neilltuadau cymunedol neu hamdden penodol ym Mholisi S01 (Adran 6).

## Ynni

8.92 Nodir polisïau yn rhoi manylion y gofynion o ran materion ynni yn rhan o ddatblygiad cyffredinol neu ddatblygiadau annibynnol yn Adran 7 (Mathau Penodol o Gynigion Defnydd Tir).

Draft

## Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol

8.93 Mae cynnal a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn ofyniad yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Pholisi Cynllunio Cymru 10.

8.94 Ceir cyfoeth o fioamrywiaeth a geoamrywiaeth yng Ngheredigion, a gydnabyddir gan nifer y safleoedd cadwraeth natur:

- Safleoedd rhyngwladol: 12 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), 1 ymgeisydd ACA (yACA), 3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) a 2 safle Ramsar;
- Safleoedd cenedlaethol: dros 100 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) a 6 Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNGau); a
- Safleoedd lleol: 3 Gwarchodfa Natur Leol, 50 o Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol (RIGS), 7 safle sy'n eiddo i Gyngor Sir Ceredigion a reolir ar gyfer cadwraeth natur, 20 o Warchodfeydd Natur Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ac amrywiaeth o safleoedd eraill gan gynnwys Gwarchodfeydd RSPB ac Arfordir Treftadaeth Ceredigion.

8.95 Dangosir ACAau, AGAau, safleoedd Ramsar, SoDdGAau, GNGau, Gwarchodfeydd Natur Lleol, RIGS ac Arfordir Treftadaeth Ceredigion ar y Map Cynigion.

8.96 Mae Ceredigion hefyd yn gartref i amrywiaeth o rywogaethau a warchodir ar sail Ewropeaidd a chenedlaethol a rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth lleol. Caiff rhywogaethau Ewropeaidd eu gwarchod gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac mae deddfwriaeth gwarchod rhywogaethau'r DU yn cynnwys y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) (fel y'i diwygiwyd) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r Ddeddf Gwarchod Moch Daear (1992). At ddibenion y ddogfen hon, y rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth lleol yw'r rhai sydd

Draft

- wedi'u rhestru fel blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth;
- wedi'u rhestru gan Lywodraeth Cymru yn Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n rhestru'r cynefinoedd a'r rhywogaethau o bwysigrwydd pennaf at ddibenion gwarchod bioamrywiaeth yng Nghymru; ac,
- y rhai sydd wedi'u cynnwys yng nghamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cynllun Adfer Natur Cymru ac,
- o bwysigrwydd pennaf i Bartneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion/Partneriaeth Natur Ceredigion a Chynllun Gweithredu Adfer Natur Ceredigion.

8.97 Rhestrir gwybodaeth am fioamrywiaeth a RIGS ar safle a neilltuwyd neu'n agos ato mewn Atodlenni Safleoedd a Neilltuwyd (Canllawiau Cynllunio Atodol). Hefyd, mae'r Datganiadau Grŵp Anheddiad yn nodi'n gyffredinol y materion bioamrywiaeth sy'n benodol i'r Grŵp hwnnw. Sylwer bod yr wybodaeth yn yr atodlenni safleoedd a neilltuwyd yn seiliedig ar asesiad ar adeg eu paratoi ac felly bydd angen i ymgeiswyr gysylltu â'r ALl i gael gwybodaeth gyfredol. Mae hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer unrhyw safleoedd ar hap (heb eu neilltuo) sy'n dod ymlaen yn ystod cyfnod y CDLl. Bydd angen cynnal asesiadau manwl yn ystod y cam cais cynllunio, ac os bydd yr asesiadau hyn yn dangos nad oes modd darparu safle mewn gwirionedd, bydd hyn yn cael sylw drwy'r Adolygiad o'r CDLl. Gallai hyn arwain at gyflwyno safleoedd eraill yn hytrach na'r safle a neilltuwyd yn gyfredol.

8.98 Gellir darparu llawer o'r gofynion sydd wedi eu cynnwys yn yr Atodlenni Safleoedd a Neilltuwyd o ran Polisïau Cadwraeth Natur DM14 a DM15 a Pholisïau eraill (fel DM10: Dylunio a Thirweddu, DM20: Diogelu Coed, Perthi a Choetiroedd a DM22: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol) yn gyfunol, ac felly yn yr un rhannau o'r safle a neilltuwyd cyffredinol. Hefyd, gellid darparu gofynion o dan Bolisi LU24: Darparu Lleoedd Agored Newydd ar gyfer Mannau Gwyrdd Naturiol yn gyfunol.

Draft

Bydd hyn yn lleihau'r arwynebedd na ellir ei ddatblygu ar y safleoedd a neilltuwyd hyn. Pan yr oedd yn hysbys yn ystod y cam neilltuo y byddai angen arwynebedd mwy ar gyfer bioamrywiaeth neu fan agored, cymerodd yr ACLI yr arwynebedd tir hwnnw o gyfanswm y tir y gellir ei ddatblygu yn yr Atodlenni Safleoedd a Neilltuwyd hyn a rhoddwyd 'arwynebedd datblygadwy net' i'r safle. Dylid ystyried rhagor o ddulliau integredig o ran y gofynion o dan SDCau (TAN 15 a DM13: Systemau Draenio Cynaliadwy). Os hoffech gael mwy o wybodaeth, gweler y Canllawiau Cynllunio Atodol: Cadwraeth Natur a'r Canllawiau Cynllunio Atodol: Mannau Agored.

8.99 Bydd gwarchod a gwella bioamrywiaeth yn helpu i fodloni credydau BREEAM.

8.100 Mae canllawiau cenedlaethol perthnasol yn cynnwys:

- Polisi Cynllunio Cymru (LlC), Lleoedd Unigryw a Naturiol
- TAN 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (LlC).
- Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth arall yn ymwneud â chadwraeth natur hefyd, fel y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

8.101 Bydd canllawiau newydd ac adolygiadau o ganllawiau yn digwydd yn ystod cyfnod y cynllun. Gwiriwch ganllawiau cenedlaethol pan fyddwch yn ymgeisio gyda'r ACLI a/neu ar wefan CDLl ar gyfer y rhestr fwyaf cyfredol.

8.102 Mae'r gwahanol lefelau o warchodaeth ar gyfer safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd yn creu'r angen am wahanol ddulliau polisi. Mae Polisi DM14 yn trafod pob math o fioamrywiaeth ond gweler y canlynol am gyngor polisi manwl pellach:

Draft

| **Safleoedd/Cynefinoedd/ Rhywogaethau** | **Polisïau Cenedlaethol a pholisïau CDLl Ceredigion** |
|---|---|
| Safleoedd rhyngwladol | Polisi Cynllunio Cymru a TAN 5, pennod 5 ac Atodiad 3, a Pholisi DM14 y CDLl hefyd |
| Safleoedd cenedlaethol | Polisi Cynllunio Cymru a TAN 5, pennod 5, a Pholisi DM14 y CDLl hefyd |
| Safleoedd lleol (Gwarchodfeydd Natur Lleol a safleoedd anstatudol) | Polisïau DM15 a DM16 y CDLl |
| Rhywogaethau a warchodir gan Ewrop | Polisi Cynllunio Cymru a TAN 5 pennod 6 ac Atodiad 7, a Pholisi DM14 y CDLl hefyd |
| Rhywogaethau a warchodir yn genedlaethol | Polisi Cynllunio Cymru a TAN 5 pennod 6 ac Atodiad 7, a Pholisi DM15 y CDLl hefyd (pan nad yw rhywogaethau wedi eu gwarchod yn llawn) |
| Rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth lleol | TAN 5 pennod 6, a Pholisi DM15 y CDLl hefyd |
| Bioamrywiaeth gyffredinol | Polisi DM15 y CDLl |

**Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol**

**Polisi DM14:**
**Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol**

Bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu pan ei fod yn diogelu ac yn gwella bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a chysylltedd ecolegol ledled Ceredigion, gan gynnwys safleoedd lleol a rhywogaethau a chynefinoedd

Draft

blaenoriaeth lleol.

Pan fo'n briodol i faint a lleoliad y datblygiad a bod cyfleoedd yn bodoli, dylai datblygiad gynnwys addysg a mynediad cadwraeth natur, cyn belled ag y gellir diogelu uniondeb ecolegol neu ddaearegol y safle.

🏳 Amcanion: 6, 7, 9 – 15, 18

8.103 Nod Polisi DM14 yw helpu i fodloni Amcanion 12, 14 a 15 a Chanllawiau Cenedlaethol trwy sicrhau bod safleoedd cadwraeth natur (statudol ac anstatudol) a rhywogaethau a chynefinoedd y tu allan i'r safleoedd hyn nid yn unig yn cael eu diogelu rhag niwed ond yn cael eu gwella hefyd. Bioamrywiaeth yw sail datblygu cynaliadwy a gall cynnwys bywyd gwyllt yn nyluniad a lleoliad datblygiad a hybu hyn trwy fynediad ac addysg arwain at enillion bioamrywiaeth net a chynorthwyo gyda nifer o amcanion amgylcheddol eraill hefyd yn ogystal â'i fod yn cynnig llawer o fanteision cymdeithasol ac economaidd.

8.104 Mae cysylltedd ecolegol yn caniatáu i rywogaethau symud yn naturiol drwy'r amgylchedd trwy goridorau bywyd gwyllt, cerrig sarn ac ati. Mae hyn yn dod yn gynyddol bwysig gan fod darnio cynefinoedd yn gadael poblogaethau rhywogaethau wedi eu gwahanu; bydd hyn yn gwaethygu ymhellach yn sgil y newid yn yr hinsawdd. Gallai nodwedd sy'n cynorthwyo cysylltedd economaidd fod yn llinellog, fel perth, neu garreg sarn, fel rhwydwaith o byllau neu glytwaith o laswelltir. Bydd cynnal a gwella cysylltedd ecolegol yn helpu rhywogaethau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

8.105 Mae'r Map Cynigion yn dangos safleoedd cadwraeth natur a warchodir rhyngwladol, cenedlaethol a lleol Ceredigion (fel y'u rhestrir yn y trosolwg uchod). Mae'n rhaid i ymgeiswyr nodi ei bod yn bosibl y gallai rhai datblygiadau effeithio ar safleoedd cadwraeth natur y tu allan i Geredigion. Hefyd, mae TAN 5 yn cynnwys rhestr o'r rhywogaethau a warchodir gan y Gyfraith yn Atodiad 8.

Draft

8.106 Mae polisïau a neilltuadau'r cynllun (gan gynnwys effeithiau cyfunol y cynllun hwn a strategaethau/cynlluniau a phrosiectau eraill) wedi bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a ddaeth i'r casgliad mewn egwyddor na ddylai eu gweithrediad arwain at unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Rhyngwladol[1]. Fodd bynnag, efallai y byddai angen asesu pellach a lliniaru perthnasol yn ystod y cam cais cynllunio i sicrhau na fydd cynigion datblygu yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd o'r fath[2]. Bydd polisi cenedlaethol yn berthnasol i unrhyw geisiadau cynllunio o dan yr amgylchiadau hyn felly. Pan ganfyddir y byddai effaith andwyol ar gyfanrwydd safle rhyngwladol na ellir ei liniaru, bydd y cais yn cael ei wrthod oni bai bod y datblygiad arfaethedig yn bodloni Rheoliad 62 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Ceir canllawiau pellach yn 'Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur'[3] ac yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol yr awdurdod, 'Cadwraeth Natur'.

8.107 Wrth ystyried pa un a fydd datblygiad yn cael effaith andwyol, bydd angen i'r ACLl ystyried effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol, cyfunol neu gronnus y cynnig ar gadwraeth natur.

8.108 Gellid cyflawni gwelliannau bioamrywiaeth trwy gynyddu/adfer cynefinoedd neu gynyddu/gwella cyfleoedd i rywogaethau. Dylai'r gwelliannau hyn geisio cyfrannu at dargedau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a/neu wella cysylltedd ecolegol. Yn dibynnu ar y cynnig, gallai fod yn fwy priodol mewn rhai achosion gwneud gwelliannau i safle statudol/anstatudol. Dylid ymgynghori â'r ACLl am gyngor ar ba welliannau a allai fod yn briodol. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei darparu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: Cadwraeth Natur.

8.109 Pan fo datblygiad o faint (e.e. ystad o dai, safle cyflogaeth ac ati) a lleoliad (e.e. yn cynnwys ardal o goetir neu nant ac ati), ac na fydd yn achosi niwed

[1] Gweler y Fersiwn a Fabwysiadwyd o Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i gael mwy o wybodaeth.
[2] Pan fo'n hysbys, amlygwyd yn yr Atodlenni Safleoedd Neilltuedig lle gallai Safle Rhyngwladol gael ei effeithio (yn dibynnu ar natur y datblygiad) ac felly lle bydd angen asesu pellach.
[3] http://wales.gov.uk/docs/desh/policy/100730tan5en.pdf (dolen i TAN 5)



Draft

i uniondeb ecolegol neu ddaearegol, efallai y bydd yn ofynnol i ddatblygwyr, pan fo cyfleoedd yn bodoli, ddarparu rhyw fath o addysg, gweithgaredd hamdden neu fynediad cadwraeth natur. Gallai hyn fod yn fwrdd dehongli, yn ddarpariaeth o fan sy’n addas ar gyfer mynd am dro neu’n ardal ymdrochi mewn pwll ac ati. Bydd hyn yn cael ei sicrhau trwy amodau cynllunio oni bai bod cytundeb S106 yn fwy priodol. Dylid ceisio cyngor cyn ymgeisio gan yr ACLl.

**Cadwraeth Bioamrywiaeth Lleol**

**Polisi DM15:**

**Cadwraeth Bioamrywiaeth Lleol**

Bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu:

1. Pan fo dull STEPwise yn cael ei fabwysiadu i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol ar y safle ac oddi ar y safle;

2. Pan fo gwelliannau rhywogaethau, cynefinoedd a choridor/cerrig sarn bywyd gwyllt priodol wedi eu cynnwys yn y datblygiad trwy ddyluniad tirwedd ac adeiladau da, neu’n cael eu cyflawni oddi ar y safle pan fo hynny’n berthnasol;

3. O ran datblygiadau sy’n effeithiau ar Warchodfeydd Natur Lleol sy’n bodloni meini prawf SINC a rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth, pan fo angen cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol tra phwysig am y datblygiad sy’n bwysicach na’r colledion i fioamrywiaeth (ar ôl lliniaru), na ellid lleoli’r datblygiad yn rhywle arall yn rhesymol ac y gellir gwneud iawn am y colledion hyn yn rhwydd ac yn llwyr yn yr ardal leol; a

Draft

4. Phan fo angen, bod cynlluniau rheoli yn cael eu llunio a'u cytuno gyda'r ACLI a bod datblygiadau yn cael eu cyflawni yn raddol i gymryd mesurau lliniaru a gwneud iawn i ystyriaeth.

Amcanion: 6, 7, 9 -15, 18

8.110 Nod Polisi DM15 yw bodloni Amcan 12 a Chanllawiau Cenedlaethol, trwy sicrhau bod safleoedd lleol a chynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth, yn ogystal â chysylltedd bioamrywiaeth ac ecolegol cyffredinol, yn cael eu diogelu a'u gwella. Mae'r polisi hwn yn darparu eglurder ynghylch sut y bydd datblygiad sy'n effeithio ar gadwraeth bioamrywiaeth lleol yn cael ei drin.

8.111 Mae dull STEPwise yn golygu y dylai'r datblygiad, yn y lle cyntaf, geisio osgoi unrhyw effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth. Os oes effeithiau negyddol na ellir eu hosgoi ar safleoedd (ac eithrio rhai a ddynodwyd yn rhyngwladol neu'n genedlaethol), cynefinoedd, rhywogaethau (ac eithrio'r rhai a warchodir gan y gyfraith) neu gysylltedd ecolegol, dylai cynigion ddangos sut y sicrheir bod yr effeithiau negyddol cyn lleied â phosibl trwy fesurau lliniaru a bod effeithiau negyddol gweddilliol yn cael eu hunioni trwy fesurau gwneud iawn. Os bydd effeithiau negyddol yn parhau ar ôl lliniaru a gwneud iawn, bydd y datblygiad yn cael ei ganiatáu os nad yw'r rhain yn sylweddol. Mae hyn yn amodol ar Faen Prawf 3 pan fydd yr ALI yn gofyn am fesurau gwneud iawn llawn. Efallai y bydd nodweddion a gedwir ar y safle yn destun S106 i sicrhau eu bod yn cael eu cadw y tu hwnt i'r datblygiad.

8.112 Yn y lle cyntaf, dylid ceisio cymryd mesurau gwneud iawn ger yr ardal lle cafwyd colled a gellid gwneud hynny trwy amod cynllunio neu gytundeb s106. Fodd bynnag, efallai y bydd yn fwy priodol mewn rhai achosion e.e. mae'r cynefin yn arbennig o anodd ei ail-greu, i ddarparu mesurau gwneud iawn yn rhywle arall (yn yr ardal leol, neu fel arall, rhywle yng Ngheredigion)

Draft

trwy gytundebau s106. Ar safleoedd sy'n effeithio Gwarchodfeydd Natur Lleol, SINCs a rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth, bydd yr ACLI yn gofyn am fesurau gwneud iawn llawn a allai mewn rhai achosion ei gwneud yn ofynnol i'r mesurau gwneud iawn fod 1.5 gwaith yn fwy na'r cynefin/safle gwreiddiol a gollwyd neu'r un arwynebedd i gael ei ddarparu fel mesur gwneud iawn mewn cyflwr gwell/ar gyfer poblogaeth fwy. Mae hyn oherwydd yr amser y bydd yn ei gymryd mewn llawer o achosion i'r cynefin gwneud iawn ddatblygu i fod o'r un gwerth â'r cynefin gwreiddiol, gan arwain at golled cynefin a rhywogaethau dros dro sylweddol. Efallai y bydd yn angenrheidiol i dir gwneud iawn gael ei greu cyn tarfu ar y buddiant bioamrywiaeth fel y gall gwaith datblygu ddechrau e.e. ar gyfer trawsleoli ymlusgiaid, ac efallai y bydd angen darpariaeth S106 mewn rhai achosion i ddarparu ar gyfer y mesurau gwneud iawn.

8.113 Wrth ystyried pa un a fydd datblygiad yn cael effaith negyddol, bydd yr ACLI yn ystyried effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol, cyfunol neu gronnus y cynnig ar gadwraeth natur.

8.114 Mae gwelliannau yn angenrheidiol i fodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Pholisi Cynllunio Cymru 10. Mae gwelliant yn briodol os yw'n helpu i fodloni targedau lleol a chenedlaethol a/neu wella cysylltedd ecolegol a'i fod yn addas ar gyfer lleoliad y safle. Er enghraifft, gallai fod yn estyniad o gynefin sydd eisoes yn bresennol ar y safle, nad yw'r nodwedd newydd yn niweidio cynefinoedd/rhywogaethau presennol, sydd am gynnal rhywogaeth sydd eisoes yn y lleoliad neu i gynnal rhywogaeth o fewn pellter gwasgaru. Dylai ymgeiswyr ymgynghori ag ecolegydd yr ACLI i sicrhau bod y gwelliannau a awgrymir yn briodol (gweler Polisi DM14). Gweler hefyd Polisi DM10 i gael gwybodaeth am ddylunio adeiladau a thirweddu da.

8.115 Bydd yr ACLI yn penderfynu a oes anghenion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol ar gyfer y datblygiad sy'n bwysicach na'r colledion i fioamrywiaeth. Mewn rhai achosion, caiff yr angen am ddatblygiad ei negyddu gan neilltuad yn y CDLI. Ystyriwyd safleoedd eraill yn ystod y broses neilltuo.

Draft

8.116 Bydd yn angenrheidiol i ddatblygiad gynnwys cynllun rheoli adeiladu a chynefinoedd pan fo'n gwneud rheolaeth benodol yn ofynnol i sicrhau y bydd mesurau osgoi, lliniaru, gwneud iawn a/neu welliannau yn llwyddiannus a dylai ddangos sut y bydd y ffactorau hyn yn cael eu rheoli dros gyfnod o amser a gytunir gan yr ACLl. Efallai y bydd angen darpariaeth S106 i dalu am y rheolaeth. Gellid gofyn am gynlluniau rheoli cyn rhoi caniatâd cynllunio os byddant yn rhan o'r penderfyniad. Fel arall, efallai y byddant yn rhan o amod lle maent yn ofynnol cyn i waith ddechrau.

8.117 Efallai y bydd angen cyflawni datblygiadau yn raddol neu reoli amseriad y gwaith i gynnwys mesurau lliniaru/gwneud iawn. Er enghraifft, bydd disgwyl i lystyfiant sy'n debygol o gael ei ddefnyddio gan adar sy'n nythu gael ei symud y tu allan i dymor bridio adar. Bydd hyn yn cael ei sicrhau trwy amodau cynllunio neu s106 pan fo hynny'n briodol.

8.118 Nid oedd unrhyw Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINCs) dynodedig ar adeg paratoi'r CDLl. At ddibenion y polisi hwn, bydd safleoedd sy'n bodloni meini prawf Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINCs) ond nad ydynt wedi eu dynodi yn cael eu trin fel pe byddent yn SINCs dynodedig ac felly byddant yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau polisi.

8.119 Darparwyd rhagor o wybodaeth yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: Cadwraeth Natur.

**Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol (RIGS)**

**Polisi DM16:**

**Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol (RIGS)**

Bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu pan fo dull STEPwise yn cael ei fabwysiadu i sicrhau bod effeithiau negyddol i brif nodweddion RIGS a

Draft

mynediad at y safleoedd cyn lleied â phosibl. Pan fo effeithiau negyddol sylweddol yn parhau, bydd y datblygiad yn cael ei ganiatáu dim ond os oes anghenion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol am y datblygiad sy'n bwysicach na'r colledion ac na ellid lleoli'r datblygiad yn rhesymol yn unman arall. Dylid manteisio ar gyfleoedd i wneud gwelliannau pan fo hynny'n briodol.

⚐ Amcanion: 11 – 15, 18

8.120 Nod Polisi DM16 yw bodloni Amcanion 14 a 15 ynghyd â Chanllawiau Cenedlaethol, trwy helpu i ddiogelu, a gwella pan fo'n bosibl, safleoedd lleol a ddynodwyd ar gyfer eu geoamrywiaeth a'u geomorffoleg.

8.121 RIGS yw'r lleoedd pwysicaf ar gyfer daeareg a geomorffoleg y tu allan i dir a warchodir yn statudol fel SoDdGAau. Mae dynodiad RIGS yn un ffordd o gydnabod a gwarchod nodweddion gwyddoniaeth daear a nodweddion tirwedd pwysig i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau.

8.122 I fabwysiadu dull STEPwise, yn y lle cyntaf, dylai'r datblygiad geisio osgoi unrhyw effeithiau negyddol o brif nodweddion RIGS. Os oes effeithiau negyddol na ellir eu hosgoi, dylai cynigion ddangos sut y bydd mesurau lliniaru yn cael eu cymryd i sicrhau bod yr effeithiau cyn lleied â phosibl. Gallai mesurau lliniaru gynnwys lleoli clustogfa o amgylch ymyl safle RIGS i sicrhau bod effeithiau dirgryniadau ac ati cyn lleied â phosibl ar y safle. Efallai y bydd achosion lle gellid defnyddio mesurau gwneud iawn trwy s106 i wneud gwelliannau i ran arall o'r safle neu RIGS arall.

8.123 Dylai datblygiadau ger safleoedd RIGS sicrhau bod mynediad at y safle yn cael ei gynnal.

8.124 Byddai'n briodol cynnwys unrhyw welliannau i RIGS os yw'r datblygiad wrth ochr RIGS neu'n agos iawn ato. Gallai gwelliannau gynnwys clirio llystyfiant oddi ar ddatguddiadau ar y safle neu wella mynediad. Fodd bynnag, dylid

Draft

ystyried ffactorau eraill fel bioamrywiaeth yn rhan o ba un a yw gwelliant yn 'briodol'.

8.125 Bydd pa un a oes anghenion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol ar gyfer datblygiad sy'n fwy na'r colledion yn cael ei benderfynu gan yr ACLl. Mewn rhai achosion, mae'r angen am ddatblygiad yn cael ei negyddu gan neilltuad o fewn y CDLl. Ystyriwyd safleoedd eraill yn ystod y broses neilltuo.

## Tirwedd

8.126 Mae gan Geredigion dirwedd naturiol, hanesyddol a diwylliannol gyfoethog ac amrywiol, yn cwmpasu arwynebedd mawr o forlin garw, gwastatiroedd arfordirol bryniog a bryniau a llwyfandiroedd ucheldir agored.

8.127 Mae tirwedd yn bwysig, nid yn unig fel golygfa ond gan ei bod yn cysylltu diwylliant â natur, a'r gorffennol gyda'r presennol. Mae tirweddau y gofelir amdanynt yn dda ac a werthfawrogir yn fawr yn hanfodol i lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Caiff tirweddau eu gwerthfawrogi oherwydd eu diddordeb cynhenid, eu cyfraniad at hunaniaeth genedlaethol ac unigrywedd lleol.

8.128 Cofnodir Ansawdd Cymeriad Tirwedd yng Nghymru gan ddefnyddio'r system LANDMAP. Adnodd tirwedd sy'n seiliedig ar GIS (System Gwybodaeth Ddaearyddol) yw LANDMAP lle mae nodweddion, rhinweddau a dylanwadau ar y dirwedd yn cael eu cofnodi a'u gwerthuso yn set ddata sy'n gyson yn genedlaethol.

8.129 Diffinnir gwybodaeth LANDMAP gan bum pennod fethodolegol, y Dirwedd Ddaearyddol, Cynefinoedd Tirwedd, Gweledol a Synhwyraidd, Tirwedd Hanesyddol a Thirwedd Ddiwylliannol. Dylid ystyried y penodau hyn fel y canllawiau tirwedd allweddol ar gyfer Cymru. Y defnydd o bob un o'r pum haen o wybodaeth sy'n hybu proses gynaliadwy o wneud penderfyniadau

Draft

am y dirwedd gan y gallai'r hyn sy'n llai pwysig mewn un haen benodol fod yn bwysig iawn mewn un arall. Mae rhoi ystyriaeth gyfartal i bob un o'r pum haen yn sicrhau nad oes unrhyw agwedd ar y dirwedd yn cael ei hanghofio. Mae'r dystiolaeth yn dynodi bod Ceredigion yn cwmpasu rhai o'r tirweddau a werthfawrogir fwyaf yng Nghymru ac felly mae angen amrywiaeth o ddulliau polisi i'w rheoli.

8.130 Dylid cyfeirio at ddata LANDMAP wrth ystyried cyflwyno cais cynllunio.

8.131 Mae canllawiau cenedlaethol perthnasol yn ymwneud â thirwedd yn cynnwys:

- Polisi Cynllunio Cymru (LlC) Lleoedd Unigryw a Naturiol
- TAN 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (LlC);
- TAN 8: Ynni Adnewyddadwy (LlC);
- TAN 10: Gorchmynion Cadw Coed (LlC).
- TAN 12: Dylunio (LlC)
- TAN 14: Cynllunio'r Arfordir (LlC); a
- TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (LlC).

8.132 Nid oes unrhyw CDLl polisïau wedi eu cynnwys yn gyffredinol ar gyfer y materion canlynol gan eu bod yn cael sylw digonol mewn canllawiau cenedlaethol:

| | |
|---|---|
| Tir comin | Polisi Cynllunio Cymru<br>TAN 16 |
| Rhandiroedd | Polisi Cynllunio Cymru<br>TAN 16<br>(gweler hefyd Polisïau LU22 ac LU23 y CDLl) |
| Meysydd tref a phentref | Polisi Cynllunio Cymru<br>TAN 16 |
| Datblygu Arfordirol | Polisi Cynllunio Cymru |



Draft

| | |
|---|---|
| | TAN 14<br>(gweler hefyd Polisi DM23 y CDLl) |
| Gwaith Amddiffyn yr Arfordir | Polisi Cynllunio Cymru<br>TAN 14<br>(gweler hefyd Polisi DM23) |

8.133 Bydd canllawiau newydd ac adolygiadau o ganllawiau yn digwydd yn ystod cyfnod y cynllun. Gwiriwch ganllawiau cenedlaethol ar adeg gwneud cais gyda'r ACLl a/neu ar wefan y CDLl i gael y rhestr fwyaf cyfredol.

**Tirwedd Gyffredinol**

**Polisi DM17:**

**Tirwedd.**

Bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu cyn belled nad yw'n cael effaith andwyol sylweddol ar y rhinweddau sy'n cynnwys tawelwch a chymeriad arbennig tirweddau a morweddau gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol neu ddiwylliannol Ceredigion, y Parciau Cenedlaethol a'r cyffiniau trwy:

1. achosi ymyrraeth weledol sylweddol;

2. cael ei leoli heb sensitifrwydd a chydymdeimlad o fewn y dirwedd;

3. cyflwyno neu ddwysáu defnydd sy'n anghydnaws â'i leoliad;

4. methu â chydweddu â'r tirffurf a'r dirwedd, na'u gwella; a /neu

5. golli neu fethu ag ymgorffori nodweddion, patrymau, strwythurau a

Draft

chynllun traddodiadol pwysig aneddiadau a thirweddau.

Bydd datblygiadau sy'n effeithio ar dirweddau neu adeiladau sydd o bwysigrwydd hanesyddol neu ddiwylliannol ac yn gwneud cyfraniad pwysig at gymeriad a diddordeb yr ardal leol yn cael ei ganiatáu pan na fydd eu hymddangosiad unigryw, eu cyfanrwydd pensaernïol neu eu lleoliadau yn cael eu heffeithio'n andwyol yn sylweddol.

Dylai datblygiad wella'r nodweddion hyn a'r cymeriad arbennig hwn pan fo hynny'n bosibl.

⚐ Amcanion: 6, 10, 11, 13 – 15, 18

8.134 Mae diogelu tirweddau gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol o ansawdd uchel ac a werthfawrogir yn fawr yn bwysig yn ei rinwedd ei hun ac i lesiant iechyd, cymdeithasol ac economaidd unigolion a chymunedau. Mae angen diogelu amrywiaeth a gwerth amwynder tirwedd Ceredigion yn gyffredinol. Mae diogelu cefn gwlad rhag datblygiad amhriodol wedi bod yn amcan cynllunio pwysig ac yn parhau i fod yn hynny (Amcan 11).

8.135 Er bod gwarchod a gwella'r dirwedd yn gyffredinol yn bwysig, mae Polisi DM17 yn cydnabod bod angen sôn yn benodol am elfennau hanesyddol a diwylliannol penodol gan fod tirwedd Ceredigion yn gyfoethog o ran tystiolaeth o'r gorffennol. Mae'n cynnwys nodweddion niferus gan gynnwys safleoedd claddu, systemau caeau hynafol, bryngaerau, ffyrdd Rhufeinig a thwmpathau castell. Gwarchodir llawer o'r nodweddion hyn fel Henebion Cofrestredig neu maent wedi eu cynnwys yn y cofnod Safleoedd a Henebion a gedwir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed a Chomisiwn Brenhinol Safleoedd a Henebion Cymru.

8.136 Mae'r Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig yn amlygu'r rhai yr ystyrir yw'r enghreifftiau gorau o wahanol fathau o



Draft

dirweddau hanesyddol yng Nghymru. Nodwyd ucheldir Ceredigion fel tirwedd o ddiddordeb hanesyddol eithriadol. Mae canllaw arfer da yn esbonio sut y dylid defnyddio'r Gofrestr wrth asesu effaith datblygiadau mawr ar y dirwedd hanesyddol. Dylai ymgeiswyr ymgynghori â CADW, Cyfoeth Naturiol Cymru neu un o ymddiriedolaethau archeolegol Cymru am ragor o gyngor a chyfarwyddyd ac edrych ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol i weld y Gofrestr hon.

8.137 Mae'r Gofrestr yn nodi pedair tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Ngheredigion:

- Ucheldir Ceredigion;
- Dyffryn Teifi Isaf;
- Drefach-Felindre a
- Dyffryn Tywi

8.138 Mae manylion a mapiau o nodweddiad y tirweddau hanesyddol hyn ar gael gan y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a reolir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Mae Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru yn cyflwyno gofynion penodol i'r ACLl eu bodloni wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Dylai ymgeiswyr gyfeirio at Bolisi Cynllunio Cymru o ran y gofynion hyn.

8.139 Ceir llawer o ddiffiniadau o'r hyn a olygir wrth gyfeirio at dirwedd ddiwylliannol. Mae LANDMAP yn diffinio tirweddau diwylliannol fel rhai sy'n cofleidio unrhyw fath o weithgarwch dynol y gellir ei gysylltu â thirwedd. Mae'n cynnwys y mynegiadau trefnedig a dihafal weithiau o ddiwylliant, fel celf neu lenyddiaeth, lle gallai'r dirwedd fod wedi ei phortreadu neu ei disgrifio, yn ogystal â'r mynegiadau anfarddonol a chyffredin, fel y dewis o ddeunyddiau adeiladu, efallai na fwriadwyd iddynt greu rhywbeth gwerthfawr neu arbennig.

8.140 Yn ogystal â llunio diwylliant, mae tirwedd hefyd yn cael ei llunio gan ddiwylliant. Er enghraifft, caiff ffermio fel gweithgarwch diwylliannol ei lunio

Draft

gan y dirwedd yn y ffordd y gallai gwahanol ardaloedd fod yn fwy addas ar gyfer arferion bugeiliol neu dir âr, ond ar yr un pryd mae tirwedd yn cael ei llunio gan ffermio, gan greu gwahanol batrymau caeau, ffiniau ac arddulliau adeiladu ac yn y blaen. Mae'r berthynas hefyd yn amlygu ei hun mewn ffyrdd ansylweddol, yn y ffordd yr ydym yn meddwl am dirwedd ac yn ymateb iddi, sut yr ydym yn ei disgrifio, a sut yr ydym yn caffael ein 'synnwyr o le'.

8.141 Mae tirwedd hanesyddol a diwylliannol Ceredigion yn cynnig llawer o gyfleoedd ar gyfer datblygu twristiaeth gynaliadwy.

8.142 Nid yw presenoldeb tirweddau hanesyddol a diwylliannol pwysig yn atal dylunio arloesol, ond dylai'r dyluniadau hynny geisio ategu'r tirweddau y maent wedi eu lleoli ynddynt.

8.143 Mae Nodyn Cyfarwyddyd 4 Gwybodaeth LANDMAP: LANDMAP a Thirwedd Ddiwylliannol Cymru yn cynnig canllawiau ar ddefnyddio setiau data Tirwedd Ddiwylliannol LANDMAP mewn Asesiadau Tirwedd ac Effaith Weledol. Gellir cael gafael arno yn www.naturalresources.wales/landmap. Mae'r Canllaw Arfer Gorau: Yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru o fewn y Broses Gynllunio: Cofrestr o Dirweddau Hanesyddol hefyd ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

8.144 Mae terfynau ffin datblygiad yn gwahaniaethu rhwng y Canolfannau Gwasanaeth a'r Aneddiadau Cysylltiedig Mawr a'r cefn gwlad agored sydd o'u hamgylch (gweler Polisïau S02, S03 ac S04). Fodd bynnag, nid oes gan Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy ac Aneddiadau Cysylltiedig derfynau ffin diffiniedig a rheolir datblygiad y tu mewn iddynt yn unol â Pholisi S04. Mae'n arbennig o bwysig, pan ganiateir i ddatblygiad fewnlenwi neu dalgrynnu Aneddiadau Cysylltiedig, bod cynigion yn cael eu dylunio a'u tirweddu fel eu bod yn parchu eu hamgylchedd. Mae estyniadau llinellog i Aneddiadau Cysylltiedig neu grwpiau bach o dai, ar ffurf rhuban, yn ymwthiad annerbyniol i'r cefn gwlad agored ac ni fyddant yn cael eu caniatáu.

Draft

8.145 Nid yw cynnwys tir o fewn ffin anheddiad Canolfan Wasanaeth neu Anheddiad Cysylltiedig Mawr neu ffurf adeiledig Anheddiad Cysylltiedig yn golygu bod y tir yn addas i'w ddatblygu. O fewn aneddiadau ac wrth eu hymyl, ceir ardaloedd o dir heb ei ddatblygu yn aml (tir llwyd neu faes glas sy'n bwysig o ran eu lleoliad, eu cymeriad neu eu gwerth amwynder gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol neu ddiwylliannol. Gall yr ardaloedd hyn gynnwys nodweddion fel dolydd glan afon, llethrau serth, coetiroedd, coedlannau bach, ardaloedd amlwg o dir agored neu leoliad adeilad o arwyddocâd hanesyddol neu ddiwylliannol. Gall datblygu ardaloedd o'r fath arwain at golli teimlad gwledig llawer o aneddiadau. Mae ardaloedd o'r fath yn uchel eu parch ymhlith y gymuned leol yn aml, oherwydd eu gwerth fel tirwedd er efallai nad oes mynediad i'r cyhoedd mewn llawer o achosion. Mae'r polisi yn ceisio atal gorddatblygiad a lleoli datblygiad yn amhriodol, a fyddai'n effeithio ar gymeriad naturiol anheddiad.

8.146 Gellid defnyddio rhai o'r mannau pwysig hyn o fewn aneddiadau neu nesaf atynt ar gyfer ardaloedd hamdden (gweler hefyd Bolisi LU24).

8.147 Dylai cynigion cyflogaeth a thwristiaeth sydd wedi eu lleoli yng nghefn gwlad fod o fudd i'r economi leol a cheisio gwella a pharchu'r dirwedd heb niweidio buddiannau amgylcheddol. Ni ddylai adeiladau amaethyddol ac anheddau newydd mewn ardaloedd gwledig fod yn amlwg yn y dirwedd. Dylai gwaith addasu neu ailgyflwyno adeiladau fferm ac anheddau a adawyd barchu ansawdd y dirwedd hefyd.

8.148 Dylid cymryd effaith datblygiad ar ardaloedd ALI a dynodiadau tirwedd statudol ac anstatudol cyfagos i ystyriaeth. Yn enwedig, mae gofynion Adran 62 Deddf yr Amgylchedd 2016 o ran dynodiadau tirwedd statudol fel Parciau Cenedlaethol (e.e. Bannau Brycheiniog, Eryri ac Arfordir Penfro, o bwysigrwydd arbennig.

8.149 Mae dylunio da a'r ddarpariaeth o dirweddu a phlannu coed yn bwysig i integreiddio'r datblygiad newydd i'w leoliad (gweler Polisïau DM10 a DM20).

8.150 Ymdrinnir ag effeithiau tirwedd o ddatblygiad ffermydd gwynt yn SSA D, ym Mholisi DM21.

8.151 Dylid defnyddio gwybodaeth LANDMAP i gynorthwyo i osgoi a gwneud iawn am effeithiau ar y dirwedd, a sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl.

**Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATAau)**

**Polisi DM18:**

**Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATAau)**

Bydd cynigion ar gyfer datblygiad a allai effeithio ar Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATAau) yn cael eu hasesu o ran maint a natur y datblygiad a'r gallu i'w cynnwys heb niwed sylweddol i nodweddion gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol a werthfawrogir yr ATA, a chan wella'r nodweddion hyn pan fo hynny'n bosibl.

Mae'r ardaloedd a ddynodwyd fel bod yn ATAau wedi eu cynnwys ar y mapiau cynigion a bydd eu rheolaeth yn destun Canllawiau Cynllunio Atodol: 'Ardaloedd Tirwedd Arbennig'.

⚐ Amcanion: 6, 10, 11, 13 – 15, 18

8.152 Er bod cadw a gwella'r dirwedd yn gyffredinol (Polisi DM17) yn bwysig, mae Polisi DM18 yn cydnabod ei bod yn bwysig bod rhai rhannau o dirwedd Ceredigion sy'n haeddu ystyriaeth arbennig. Dynodiadau anstatudol yw Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATAau) sy'n seiliedig ar asesiad gwyddonol ffurfiol o werth tirwedd.

8.153 Mae dull system wybodaeth LANDMAP wedi bod yn adnodd gwybodaeth pwysig y dynodwyd ATAau Ceredigion ar ei sail. Mae LANDMAP yn darparu sail dull Cymru gyfan cyson o gynnal asesiadau tirwedd. Mae manylion astudiaeth Ceredigion (TACP, 2010) ar gael ar wefan y Cyngor.

Draft

8.154 Yn seiliedig ar yr astudiaeth hon, dynodwyd ATAau gan yr ACLl ac fe'u dangosir ar y Map Cynigion.

8.155 Bydd rheolaeth ATAau yn destun Canllawiau Cynllunio Atodol: 'Ardaloedd Tirwedd Arbennig'. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn nodi'r cymeriad a'r materion sy'n gysylltiedig â'r ATAau ac yn cynnwys gwybodaeth am eu rheoli a sut y gellid hwyluso datblygiad orau.

8.156 Mae'n bwysig nodi, pan nad yw tir y nodwyd gan LANDMAP fel bod o werth arbennig wedi ei gynnwys mewn ATA, y bydd yr wybodaeth LANDMAP ei hun yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio (gweler Polisi DM17).

**Nid oes unrhyw Bolisi DM19 wedi ei gynnwys yn y CDLl**

**Diogelu Coed, Perthi a Choetiroedd**

**Polisi DM20:**

**Diogelu Coed, Perthi a Choetiroedd**

Bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu cyn belled:

1. na fyddai'n cael gwared ar goed, perthi na choetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu fel amwynder, nac yn eu difrodi na'u dinistrio, oni bai bod yr angen am y datblygiad arfaethedig yn fwy na'r gwerthoedd hyn;

2. ei fod yn gallu lliniaru neu, os oes angen, gwneud iawn am unrhyw effeithiau negyddol o'r golled neu'r difrod;

3. y byddai'n sicrhau enillion bioamrywiaeth priodol; a

Draft

4. bod mesurau gwneud iawn a gwella yn rhywogaethau cynhenid o stoc frodorol ac nad ydynt yn rhywogaethau estron goresgynnol.

⚐ Amcanion: 6, 9 – 15, 18

8.157 Mae Polisi DM20 yn cydnabod bod coetiroedd, coed a pherthi yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd gweledol a bioamrywiaeth Ceredigion. Bydd tybiaeth o blaid cadw coed, perthi a choetiroedd presennol. Hefyd, bydd plannu newydd mewn datblygiadau yn ofynnol yn unol â Pholisi DM10.

8.158 Gall cadw coed a pherthi presennol helpu i integreiddio datblygiad newydd. Bydd coed a pherthi yn cael eu gwarchod gan amod sy'n gwneud eu gwarchod a'u cadw yn ofynnol yn ystod y cyfnod adeiladu a thu hwnt ac yna'r angen am gydsyniad ysgrifenedig cyn y gellir eu cwympo/tocio neu gael gwared arnynt.

8.159 Efallai y bydd achosion pan fydd yr angen am ddatblygiad yn fwy na'r gwerthoedd hyn ac y bydd angen ceisio mesurau gwneud iawn am golled y nodweddion hyn. Bydd yr angen am y datblygiad yn cael ei benderfynu gan yr ACLl ac efallai y bydd hyn eisoes wedi ei negyddu gan neilltuad yn y CDLl mewn rhai achosion. Mae'r Atodlenni Safleoedd a Neilltuwyd (Canllawiau Cynllunio Atodol) yn dynodi pa un a oes coed, perthi a choetiroedd ar y safle ac mewn llawer o achosion mae dwyseddau wedi eu cyfrifo gyda'u gwarchodaeth mewn golwg. Os nad oes unrhyw safleoedd eraill addas ar gyfer datblygu, dylid ceisio mesurau gwneud iawn am y golled. Os bydd yr angen am ddatblygiad neu ganllawiau eraill yn awgrymu bod y datblygiad yn bwysicach na'r gwerthoedd hyn, mae'n rhaid cynnal trafodaethau penodol i'r safle rhwng bob parti perthnasol i nodi a chytuno ar gamau lliniaru, gwneud iawn a gwella ychwanegol.

8.160 Dylid ceisio cymryd camau gwneud iawn a gwella wrth ymyl yr ardal o golled yn y lle cyntaf, a dylai gael ei sicrhau trwy amod cynllunio neu

Draft

gytundebau S106. Dylai plannu gwneud iawn ddefnyddio'r un gymysgedd o rywogaethau, neu welliant. Fodd bynnag, os oedd y nodweddion gwreiddiol yn estron, dylid ceisio cyngor gan yr ALI ar yr hyn a fyddai'r rhywogaethau mwyaf priodol, a fydd yn rhywogaethau cynhenid yn y rhan fwyaf o achosion. Dylai plannu gwella fod yn rhywogaethau cynhenid o stoc leol yn bennaf.

8.161 Mae coetiroedd hynafol yn gynefinoedd unigryw ac mae'r rhain ynghyd â choetiroedd lled-naturiol o werth bioamrywiaeth uchel y dylid eu gwarchod rhag datblygiad. Mae'n rhaid osgoi colli mwy o'r cynefinoedd hyn a bydd ceisiadau ar gyfer datblygiadau coetir a fyddai'n arwain at niwed sylweddol i'r coetiroedd pwysig hyn yn cael eu gwrthod.

8.162 Bydd gan goed â Gorchmynion Diogelu Coed y dybiaeth yn erbyn cael gwared arnynt yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a TAN 10: Gorchmynion Diogelu Coed. Dynodwyd Gorchmynion Diogelu Coed a gadarnhawyd ar adeg llunio'r CDLl mewn Atodlenni Safle a Neilltuwyd. Mae'r rhain yn debygol o gael eu diweddaru yn achlysurol ac felly dylai ymgeiswyr ymgynghori â'r ALI i benderfynu ar ba un a oes unrhyw Orchmynion Diogelu Coed newydd ar eu ceisiadau neu'n cael eu heffeithio ganddynt. Hefyd, bydd tybiaeth gref yn erbyn cwympo coed Hynod (coed sydd o werth diwylliannol, tirwedd neu gadwraeth natur eithriadol oherwydd eu hoedran mawr, eu maint neu eu cyflwr) ni waeth pa un a oes Gorchymyn Diogelu Coed ai peidio.

8.163 Mae perthi yn nodwedd tirwedd pwysig arall a hefyd yn gynefinoedd bywyd gwyllt pwysig (gweler Polisïau DM14 a DM15). Cyflwynodd Rheoliadau Perthi 1997 y system o "Hysbysiadau gwaredu perthi" lle rhoddir rhybudd o 42 diwrnod i'r Cyngor o'r bwriad i gael gwared ar berthi yn unol â'r Rheoliadau. Mae perth yn "bwysig" os yw wedi bodoli ers 30 mlynedd neu fwy, ac yn bodloni o leiaf un o'r sawl maen prawf penodedig. Bydd tybiaeth yn erbyn cael gwared ar berthi pwysig sydd o werth sylweddol i Geredigion.

Draft

8.164 Nodwyd perllannau traddodiadol, coetiroedd ffawydden iseldir, coetiroedd colldail cymysg iseldir, tir glas a thir parc coed iseldir, coetiroedd ynn cymysg ucheldir, Coedlannau Deri Ucheldir a choetiroedd gwlyb fel cynefinoedd pwysig iawn ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru o dan Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Nodwyd coetiroedd conwydd, perthi ac ystlumod pipistrelle fel cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth lleol fel y penderfynwyd gan Bartneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion.

8.165 Mae'n rhaid i'r holl waith a wneir yn agos at goed ddilyn Safonau Prydeinig ar gyfer Coed o ran adeiladu 5837 (2005).

8.166 Yn ogystal â chadw coed a pherthi presennol, bydd plannu newydd mewn datblygiadau yn ofyniad hefyd. Bydd canllawiau pellach yn cael eu cynnwys yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: 'Amgylchedd Adeiledig' (gweler hefyd Bolisi DM10).

8.167 Er mwyn i'r datblygiad arwain at enillion bioamrywiaeth net 'priodol', bydd angen i'r datblygiad sicrhau:

- nad oes unrhyw golled sylweddol o goetiroedd, coed a/neu berthi;
- y manteisiwyd ar gyfleoedd i wella; a
- bod cysylltedd ecolegol yn cael ei gynnal.

8.168 Gallai gwelliannau fod trwy blannu coed a pherthi ychwanegol (at blannu'r mesurau gwneud iawn), gwella perthi presennol trwy reolaeth dda a phlannu mewn bylchau neu reoli coetir a ddiraddiwyd. Dylai'r gwelliannau hyn geisio cyfrannu at dargedau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a/neu gysylltedd ecolegol a dylent fod yn rhywogaethau cynhenid o stoc frodorol. Ceir rhagor o wybodaeth yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: Cadwraeth Natur hefyd.

Draft

8.169 Bydd yr ALI hefyd yn annog plannu llydanddail cynhenid newydd ac ailstocio a rheoli coetiroedd presennol i wella buddiannau amwynder gweledol, amrywiaeth ecolegol, hamdden a chadwraeth.

8.170 Efallai y bydd y Cyngor yn cynorthwyo cynlluniau plannu coed priodol mewn partneriaeth â chymunedau a pherchnogion tir lleol. Gall coetiroedd cymunedol fod yn ffordd bwysig o wella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Pan fo cymuned yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o sefydlu coetir, gall fod yn fuddiol iawn o ran meithrin a chreu synnwyr o ysbryd a balchder cymunedol. Gall plannu coetiroedd helpu i leihau'r perygl o lifogydd, cynyddu sefydlogrwydd tir, lleihau'r effaith weledol a helpu i atal llygredd sŵn. Gallai cael gwared ar goetir gael effaith negyddol ar y rhai a restrir uchod yn ogystal â chynyddu asidedd cyrsiau dŵr cyfagos.

8.171 Gweler Polisi DM10 i gael gwybodaeth am rywogaethau cynhenid a rhywogaethau cynefin anymledol.

**Effaith Tirwedd Datblygiad Ffermydd Gwynt yn Ardal Chwilio Strategol D**

**Polisi DM21:**

**Effaith Tirwedd Datblygiad Ffermydd Gwynt yn Ardal Chwilio Strategol D**

Bydd yn ofynnol i ddatblygiad ffermydd gwynt yn Ardal Chwilio Strategol D ddangos ei fod yn cymryd cymeriad y dirwedd weledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol, a thawelwch, i ystyriaeth, oddi mewn a thu allan i ffiniau'r Ardal Chwilio Strategol, ac yn ceisio sicrhau bod ei effaith ar y rhain cyn lleied â phosibl.

Amcanion: 10, 11, 14

Draft

8.172 Mae Polisi LU26 (Adran 7) yn nodi ystyriaethau polisi o ran Ardal Chwilio Strategol D: Nant y Moch sydd yng ngogledd Ceredigion. Mae Polisi DM21 yn ymdrin yn benodol â materion tirwedd yn ymwneud ag Ardal Chwilio Strategol D.

8.173 Derbyniwyd newid tirwedd yn genedlaethol o fewn yr Ardaloedd Chwilio Strategol, a chydnabuwyd creu ‘tirweddau fferm wynt’ yn yr ardaloedd hyn gan y Llywodraeth fel canlyniad o fodloni targedau ynni adnewyddadwy, o fewn (ac yn uniongyrchol nesaf at) yr Ardaloedd Chwilio Strategol (TAN 8). Yr amcan cenedlaethol goblygedig o ran yr Ardal Chwilio Strategol yw derbyn newid mewn tirwedd h.y. newid sylweddol i gymeriad tirwedd oherwydd datblygiad tyrbinau gwynt (TAN 8).

8.174 O gofio uchder tyrbinau, mae’n bosibl iawn y gallai effeithiau gweledol fferm wynt o fewn yr Ardal Chwilio Strategol effeithio ar gymeriad ardaloedd cryn bellter i ffwrdd. Mae materion o’r fath yn codi’n fwyaf eglur pan fo Ardaloedd Chwilio Strategol yn agos at Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

8.175 Yn 2007, paratowyd adroddiad gan Arup i Gynghorau Sir Ceredigion a Phowys, ‘*TAN 8 Annex D study of Ardal Chwilio Strategol D: Nant-y-Moch*’, a fwriadwyd fel ymarfer ‘mireinio’ yn unol â dull Atodiad D TAN 8. Ymarfer asesu tirwedd a gweledol oedd astudiaeth Arup yn bennaf a oedd yn ceisio nodi ‘Ardal neu Ardaloedd a Ffefrir’ ar gyfer ffermydd gwynt graddfa fawr o fewn ffiniau’r Ardal Chwilio Strategol yn gyffredinol, gan weithio yng nghyd-destun y targedau capasiti dynodol ar gyfer yr Ardal Chwilio Strategol. Defnyddiodd yr astudiaeth amrywiaeth o ddata technegol ac amgylcheddol eraill hefyd i lywio ei gwaith. Arweiniodd yr astudiaeth at argymhelliad y gellid bodloni dyhead capasiti TAN 8 hyd at 2010 o fewn ardal sylweddol lai o fewn ffin Ardal Chwilio Strategol D i raddau helaeth. Mae Polisi LU26 y CDLl yn cynnig yr ardal a nodwyd yn adroddiad Arup (sydd yn Ardal Chwilio Strategol D yn ei chyfanrwydd o ran ffin Ceredigion ei hun) fel ‘ardal chwilio a ffefrir’. Fel y cyfryw, gwybodaeth dechnegol yr adroddiad yw’r sail ar gyfer yr ‘ardal chwilio a ffefrir’. Hefyd, ‘sgôr sensitifrwydd’ parseli ychwanegol o



Draft

fewn Ardal Chwilio Strategol D fydd y sail ar gyfer ffafriaeth ddilynianol bellach i leoli tyrbinau yn Ardal Chwilio Strategol D, yn yr ystyriaeth o gynigion ar gyfer ymestyn capasiti ymhellach yn Ardal Chwilio Strategol D.

8.176 Dylid defnyddio gwybodaeth LANDMAP hefyd i gynorthwyo i osgoi a gwneud iawn am effeithiau tirwedd sy'n deillio o ddatblygiadau ffermydd gwynt, a sicrhau bod yr effeithiau hyn cyn lleied â phosibl. Mae Nodyn Cyfarwyddyd 3 Gwybodaeth LANDMAP: LANDMAP, Asesiadau Tirwedd ac Effaith Weledol, yn cynnig canllawiau ar ddefnyddio LANDMAP ar gyfer asesiadau tirwedd ac effaith weledol tyrbinau gwynt ar y tir.

## Diogelu'r Amgylchedd

8.177 Gallai diogelu'r amgylchedd gyfeirio at amrywiaeth eang o faterion. Mae'r polisïau canlynol yn cyflwyno dull yr ACLl (naill ai drwy ganllawiau cenedlaethol neu drwy bolisïau lleol) o ran:

- Llifogydd Llanwol, Erydu Arfordirol, Llifogydd o'r Môr;
- Gwaith Diogelu'r Arfordir a Chynlluniau Amddiffyn rhag Llifogydd;
- Adnoddau Dŵr sydd Ar Gael a'u Diogelu;
- Diogelu a gwella pridd, aer a dŵr;
- Diogelu Prosesau Naturiol a Gwasanaethau Ecosystem;
- Ansefydlogrwydd Tir; a
- Parthau Diogelu Meysydd Glanio a Safleoedd Technegol.

Ymdrinnir â materion yn ymwneud â chadwraeth natur a thirwedd yn gynharach yn yr adran hon (Polisïau DM14-DM21).

8.178 Ceir tua 80 cilomedr o forlin yng Ngheredigion. Fel adnodd naturiol, mae'r arfordir bob amser yn esblygu ac yn newid ac mae angen cymryd y prosesau hyn i ystyriaeth pan fydd datblygiad newydd yn cael ei gynnig.

8.179 Mae TAN 14: Cynllunio'r Arfordir yn nodi'n eglur bod angen i ddatblygwyr ddarparu gwybodaeth briodol sy'n dangos y gellir datblygu safleoedd



Draft

arfaethedig mewn lleoliadau arfordirol yn ddiogel heb effeithiau andwyol sylweddol ar yr arfordir. Ystyrir bod y canllawiau sydd wedi eu cynnwys yn y TAN yn sicrhau'n ddigonol y bydd Amcan 13 y CDLl yn cael sylw ac mae'n nodi'r materion y mae angen i ddatblygwyr eu hystyried wrth gyflwyno ceisiadau cynllunio mewn ardaloedd arfordirol gan ddiogelu cyfanrwydd treftadaeth naturiol a ffisegol yr arfordir.

8.180 Dylid rhoi ystyriaeth i ba un a fyddai datblygiad angen Asesiad o Effaith Amgylcheddol oherwydd ei natur, ei faint neu ei leoliad mewn ardal a ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur.

8.181 Mae canllawiau cenedlaethol perthnasol yn ymwneud â materion diogelu'r amgylchedd yn cynnwys:

- Polisi Cynllunio Cymru (LlC)
- TAN 11: Sŵn (LlC)**;**
- TAN 14: Cynllunio'r Arfordir (LlC);
- TAN 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (LlC); a
- TAN 21: Gwastraff (LlC).

8.182 Nid oes unrhyw bolisïau CDLl wedi eu cynnwys ar gyfer y materion canlynol gan eu bod yn cael sylw digonol gan y canllawiau cenedlaethol uchod:

| | |
|---|---|
| Perygl Llifogydd | TAN 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd. |
| Tir Halogedig a Llygredd | Polisi Cynllunio Cymru.<br>Fodd bynnag, mae Polisi DM22 y CDLl yn trafod agweddau yn ychwanegol at Bolisi Cynllunio Cymru o ran ansefydlogrwydd tir. |
| Diogelu Meysydd Glanio, Safleoedd Technegol ac Ardaloedd Storio Ffrwydron Milwrol | Cylchlythyr 01/2003 Diogelu Meysydd Glanio, Safleoedd Technegol ac Ardaloedd Storio Ffrwydron |

Draft

8.183 Bydd canllawiau newydd ac adolygiadau o ganllawiau yn digwydd yn ystod cyfnod y cynllun. Gwiriwch ganllawiau cenedlaethol pan fyddwch yn ymgeisio gyda'r ACLl a/neu wefan y CDLl i gael y rhestr ddiweddaraf.

**Diogelu a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol.**

**Polisi DM22:**

**Diogelu a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol.**

Er mwyn helpu i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu a'i wella, bydd datblygiad arfaethedig yn cael ei ganiatáu cyn belled:

1. Â'i fod yn diogelu a gwella aer, pridd a'r amgylchedd dŵr ac yn diogelu adnoddau dŵr, ar y safle ac oddi arno;

2. Nad yw'n cael effaith andwyol sylweddol ar lefelau sŵn a golau, ar y safle ac oddi arno;

3. Bod dull STEPwise yn cael ei fabwysiadu i sicrhau nad yw'n cael effaith andwyol sylweddol ar brosesau naturiol a gwasanaethau ecosystem, ar y safle ac oddi arno, ac yn ceisio adfer a gwella nodweddion cysylltiedig yn ogystal â sicrhau bod eu cyflwr yn ffafriol;

4. Bod unrhyw waith ailhawlio tir, capio gwaith sy'n gysylltiedig ag adfer neu ddatblygu cloddfeydd metel adfeiliedig yn arwain at ymyrraeth ofynnol ac yn:
    a. hanfodol i gael gwared ar fygythiad llygredd; neu
    b. waith diogelwch hanfodol; ac
    c. wedi ei fwriadu yn benodol i addysgu, hybu, diogelu neu gadw gweddillion y cloddfeydd.

Draft

5. Bod unrhyw dir sy'n cael ei effeithio gan ansefydlogrwydd yn cael ei ategu gan dystiolaeth sy'n dangos:
    a. na fydd datblygiad yn arwain at ansefydlogrwydd eiddo cyfagos; ac
    b. nad yw unrhyw waith sy'n ofynnol i sefydlogi'r safle yn cael effaith andwyol sylweddol ar yr amgylchedd.

⚐ Amcanion: 9, 10, 12 – 15, 18

8.184 Mae'r polisi yn ceisio cyflawni nodau Amcanion 9 a 14 trwy sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad newydd yn cael effaith negyddol ar ddŵr, aer a phridd ac nad yw'n arwain at fwy o lygredd golau a sŵn. Mae hefyd yn ceisio cadw, adfer a chynyddu gwasanaethau ecosystem Ceredigion a fydd, er enghraifft, yn cynorthwyo i sicrhau bod allyriadau nwyon tŷ gwydr cyn lleied â phosibl, gan wella ansawdd dŵr a lliniaru llifogydd. Mae'r rhain hefyd yn adnodd economaidd mawr. Trwy gymhwyso'r egwyddorion hyn, caiff yr amgylchedd ei ddiogelu a phan fo'n bosibl ei wella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y dull hwn yn helpu i gyflawni nodau Amcan 12.

8.185 Rhoddir sylw i lawer o agweddau yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd mewn amrywiaeth o ganllawiau cenedlaethol a dylid cyfeirio felly at Bolisi Cynllunio Cymru a TANs perthnasol. Mae'r polisi hwn yn rhoi sylw felly i'r ychydig agweddau hynny na roddir sylw digonol iddynt ar y lefel genedlaethol.

8.186 Dylid cyfeirio at Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Asiantaeth yr Amgylchedd a Chynlluniau Rheoli Basn Afon cysylltiedig i helpu i benderfynu pa effaith bosibl y gallai datblygiad arfaethedig ei chael ar ansawdd ac adnodd dŵr. Y Cynlluniau Rheoli Basn Afon perthnasol ar gyfer Ceredigion yw rhai Gorllewin Cymru ac Afon Hafren (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2009). Mae'r cynlluniau hyn yn tynnu sylw at y pwysau ar yr amgylchedd dŵr, a'r camau a fydd yn mynd i'r afael â nhw. Hefyd, mae Cynlluniau Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am yr



Draft

adnoddau dŵr sydd ar gael ym mhob dalgylch. Mae'r holl ddogfennau ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Hefyd, argymhellir ymgynghori cynnar â Cyfoeth Naturiol Cymru a DCWW.

8.187 Mae diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr yn sicrhau bod dŵr yn ei gyfanrwydd yn cael ei ddiogelu – nid ansawdd dŵr yn unig – ac ar gyfer yr amgylchedd. Bydd diogelu adnoddau dŵr yn gwarchod y ffynonellau dŵr sy'n ddefnyddiol neu a allai fod yn ddefnyddiol i bobl.

8.188 Mae ardaloedd perygl i ddŵr daear yn cyfeirio at ardaloedd o ddŵr daear sydd mewn perygl oherwydd gweithgareddau defnydd tir arwyneb. Mae Ardaloedd Diogelu Tarddiad Dŵr yn darparu diogelwch penodol a allai fod yn briodol ar gyfer ffynonellau unigol – fel pistylloedd, ffynhonnau a thyllau turio. Mae angen diogelu'r rhain rhag llygredd a thynnu gormodol o ran yr amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr (felly ar gyfer yr amgylchedd ac i bobl sicrhau bod eu dŵr yfed yn ddiogel ac nad yw'n mynd i ddod i ben).

8.189 Wrth benderfynu ar ba un a fydd datblygiad arfaethedig yn effeithio ar ansawdd dŵr, mae angen rhoi ystyriaeth i faterion fel gwaddodiad yn llifo i gwrs dŵr yn ystod datblygiad ac o ran dŵr ffo o'r prosesau sy'n digwydd ar y safle yn llifo i'r cwrs dŵr neu i ddŵr daear. Hefyd, os bydd cyfran uchel o goetir yn cael ei waredu, gallai hyn effeithio ar lefelau asidedd cyrsiau dŵr cyfagos.

8.190 Gall datblygiad effeithio ar wasanaethau ecosystem a phrosesau naturiol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Y cynhyrchion a'r gwasanaethau, fel cynhyrchu ocsigen, puro dŵr, dal a storio carbon ac ati, y mae pobl yn eu derbyn o ecosystemau gweithredol yw gwasanaethau ecosystem. Darperir y gwasanaethau a'r cynhyrchion hyn gan yr amgylchedd naturiol pan fydd mewn cyflwr da. Er enghraifft, gall mawnog sydd mewn cyflwr da ddarparu gwasanaethau puro dŵr, dal a storio carbon a lliniaru llifogydd.

8.191 Prosesau a fyddai'n digwydd yn naturiol drwy natur yw Prosesau Naturiol. Er enghraifft, mae afonydd yn erydu yn naturiol, gan ddyddodi'r gwaddod

Draft

mewn gwahanol fannau ac felly'r canlyniad yw bod yr afon yn newid ei siâp a'i chwrs dros amser. Mae gwasanaethau ecosystem wedi eu seilio ar brosesau naturiol, ond ceir prosesau naturiol sy'n digwydd nad ydynt yn wasanaethau i bobl ond sy'n dal i fod yn bwysig eu cynnal ar gyfer yr amgylchedd. Er enghraifft, mae llifogydd yn broses naturiol sy'n bwysig i gynnal sawl rhywogaeth a chynefin. Fodd bynnag, mae proses naturiol y gorlifdir i liniaru llifogydd, gan leihau llifogydd mewn mannau eraill, yn wasanaeth ecosystem.

8.192 Gallai datblygiad effeithio ar y gwasanaethau a'r prosesau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gallent gael eu heffeithio yn uniongyrchol gan golled uniongyrchol o ran o ecosystem, e.e. palu i mewn i fawn neu gael gwared ar goed sy'n lliniaru llifogydd. Gallai datblygiad hefyd effeithio ar wasanaethau ecosystem a phrosesau naturiol yn anuniongyrchol, e.e. cyfrannu at erydiad mawnog neu atal llifogydd i orlifdir gan effeithio ar rywogaethau afonol sydd angen y gorlifdir i fridio.

8.193 Gweler polisi DM15 i gael esboniad o ddull STEPwise.

8.194 Efallai y bydd rhai mesurau gwneud iawn y gellir eu cymryd ar gyfer rhai gwasanaethau ecosystem. Er enghraifft, gellid adfer cyn-fawnog os caiff rhywfaint ei golli neu gellid plannu coed i wneud iawn am golled rhai y cafwyd gwared arnynt. Efallai y bydd angen cymryd y camau gwneud iawn hyn oddi ar y safle.

8.195 Efallai y bydd achosion hefyd pan allai camau adfer, sef gwaith tuag at sicrhau cyflwr neu welliannau, gael eu cymryd. Ailgyflwyno cynefin creiriol yw adfer. Er enghraifft, ardal o goetir a oedd yn orgors ar un adeg. Byddai angen gwella adnodd presennol sydd wedi'i ddiraddio i sicrhau cyflwr. Er enghraifft, gellid gwella gorgors sych fel ei bod yn cael ei hail-wlychu. Gellid sicrhau gwelliannau trwy adfer cynefin lle nad oes unrhyw golled neu ei fod yn ychwanegol i'r ardal a adferwyd trwy gamau gwneud iawn. Er enghraifft, gellid rhoi ffens o amgylch darn o lan yr afon er mwyn caniatáu i'r llystyfiant dyfu yn ôl ac atal erydiad wedi'i gyflymu.

Draft

8.196 Bydd y camau lliniaru, gwneud iawn a gwella/adfer hyn yn cael eu cymryd naill ai drwy amodau cynllunio neu Adran 106 os cânt eu cymryd oddi ar y safle datblygu.

8.197 Pryd y gallai datblygiad effeithio'n sylweddol ar y gwasanaethau neu'r prosesau hyn, bydd yn angenrheidiol cynnwys Cynllun Rheoli i sicrhau y bydd lliniaru, gwneud iawn, adfer, gwaith i sicrhau cyflwr a gwelliannau yn llwyddiannus. Dylai'r cynllun ddangos sut y bydd y ffactorau hyn yn cael eu rheoli dros gyfnod o amser a gytunir gan yr ACLl. Bydd hwn yn gyfnod o 5 mlynedd fel rheol ond efallai y bydd rhai achosion, e.e. oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i gynefin newydd gael ei greu, pryd y disgwylir cyfnod hwy o amser. Gofynnir am gynlluniau rheoli cyn rhoi caniatâd cynllunio os byddant yn rhan o'r penderfyniad. Fel arall, byddant yn cael eu sicrhau trwy amod cynllunio ac yn ofynnol cyn i waith ddechrau ar y safle.

8.198 Defnyddiwyd ardaloedd helaeth o ucheldir gogledd Ceredigion ar gyfer cloddio metel a chwarela ar un adeg. Mae'r gweithgareddau hyn wedi gadael etifeddiaeth o hen siafftiau, mynedfeydd a thomenni sbwriel. Bydd Polisi Cynllunio Mwynau Cymru ynghyd â Maen Prawf 4 ym Mholisi DM22 yn cael eu defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio sy'n cynnwys datblygu safleoedd sy'n gysylltiedig â chloddfeydd metel. Bydd angen asesu effeithiau gwaith o'r fath ar safleoedd gwarchodedig sy'n dibynnu ar ddyddodion metel.

8.199 Ymdrinnir â'r mater o ansefydlogrwydd tir ym Mholisi Cynllunio Cymru yn bennaf. Fodd bynnag, mae Maen Prawf 5 Polisi DM22 yn egluro mai cyfrifoldeb y datblygwr yw sicrhau bod y tir yn addas ar gyfer y datblygiad arfaethedig, neu y gellir ei wneud yn addas. Gallai gwaith a allai fod yn gysylltiedig ag ansefydlogrwydd tir gynnwys growtio neu gapio gweithfeydd. Mewn rhai achosion, gallai'r ansefydlogrwydd tir fod mor ddifrifol fel na ellir cyfiawnhau faint o waith sy'n gysylltiedig â gwneud y tir yn sefydlog ac y byddai'n well peidio â datblygu'r safle.

Draft

## Rheoli'r Arfordir

**Polisi DM23:**

**Rheoli'r Arfordir**

Bydd cynlluniau rheoli'r arfordir yn cael eu caniatáu cyn belled:

1. Â bod eu hangen i sicrhau diogelwch y cyhoedd;
2. Eu bod yn diogelu buddiannau economaidd-gymdeithasol y gymuned;
3. Bod yr holl effeithiau amgylcheddol wedi eu hystyried ac na fyddent yn cyfrannu at y perygl o lifogydd, erydu arfordirol neu afonol, llifogydd o'r môr a gwasgfa arfordirol, neu'n trosglwyddo'r perygl o hyn;
4. Bod cyfleusterau ar gyfer hamdden yn cael eu darparu, pan fo hynny'n briodol; a
5. Gellir darparu mynediad i'r cyhoedd pan fo hynny'n briodol a'i gynnal pan fo eisoes yn bodoli.

⚐ Amcanion: 9, 13, 14

8.200 Mae'r polisi hwn yn helpu i gyflawni Amcan 9, trwy geisio rheoli a mynd i'r afael ag effeithiau llifogydd arfordirol yn rhagweithiol. Mae hefyd yn helpu i gyflawni Amcan 13, trwy reoli'r morlin sy'n newid mewn ffordd mor gynaliadwy â phosibl, gan gydnabod y prosesau naturiol sy'n digwydd. Mae'r polisi hwn hefyd yn helpu i gyflawni nodau Amcanion 13 a 14, trwy ddiogelu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol.

Draft

8.201 Mae'r Cynllun Rheoli Traethlin yn nodi'r problemau arfordirol penodol sy'n bodoli ac yn ceisio nodi dewisiadau rheoli arfordirol cynaliadwy, gan gymryd i ystyriaeth dylanwadau ac anghenion yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd dynol ac adeiledig. Mae rhagor o wybodaeth am y Cynllun Rheoli Traethlin ar gael o wefan y Cyngor.

8.202 Dylid cyfiawnhau cynlluniau rheoli'r arfordir ar sail cynllunio, amgylcheddol ac economaidd. Dylai cynlluniau rheoli'r arfordir weithio gyda'r prosesau ffisegol naturiol yn hytrach nag yn eu herbyn ac ni ddylai drosglwyddo'r risg i rannau eraill o'r morlin. Dylai fod cyn lleied â phosibl o darfu ar y rhyng-gysylltiadau sy'n bodoli o fewn prosesau naturiol y gell arfordirol (gweler y Cynllun Rheoli Traethlin I gael rhagor o fanylion).

8.203 Mae'r rhan fwyaf o agweddau polisi yn ymwneud â Rheoli'r Arfordir wedi eu cynnwys o dan Bolisi Cynllunio Cymru, a TAN 14, ond ceir rhai materion na roddir sylw digonol iddynt, a rhoddir sylw i'r rhain ym Mholisi DM23.

8.204 Dylai ymgeiswyr gyfeirio at y Cynllun Rheoli Traethlin a fabwysiadwyd gan ei fod yn disgrifio'r polisi amddiffyn presennol yn yr ardal ac yn argymell y polisi i'w fabwysiadu yn y dyfodol. Mae hefyd yn nodi ardaloedd lle gallai darparu gwaith amddiffyn newydd fod o fudd a hefyd yn nodi ardaloedd nad ydynt yn addas ar gyfer datblygiad, gan y byddai eu hamddiffyn yn cael effaith andwyol neu y byddai'n anghynaladwy yn yr hirdymor.

8.205 Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r Cynllun Rheoli Traethlin arwain at gynnydd i lifogydd neu erydu arfordirol/afonol o dan amgylchiadau penodol gan fod budd bioamrywiaeth sylweddol dros ganiatáu hyn. Yn yr achosion hyn, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw dangos pam mae cynllun o'r fath o fudd ac na fydd yn tanseilio diogelwch y cyhoedd.

8.206 Ni ddylai cynlluniau rheoli'r arfordir gyfrannu at wasgfa arfordirol. Yr effaith pan fydd cynefinoedd arfordirol fel morfeydd heli yn cael eu colli rhwng ffin sefydlog tua'r tir a lefelau môr sy'n codi a stormusrwydd cynyddol yw gwasgfa arfordirol. Mae datblygiad ar yr arfordir, gan gynnwys



Draft

amddiffynfeydd arfordirol, yn sefydlogi'r morlin i bob pwrpas, fel nad yw cynefinoedd sy'n gallu addasu fel rheol yn gallu mudo tua'r tir pan fydd lefel y môr yn codi oherwydd rhwystr strwythurau ffisegol. Mae hyn yn 'gwasgu'r' cynefin i bob pwrpas gan arwain at golled ansawdd a/neu nifer y cynefinoedd pwysig hyn a bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â nhw e.e. adar y glannau. Bydd yr effaith hon yn cael ei chyflymu yn sgil y stormusrwydd cynyddol a ragwelir o'r newid yn yr hinsawdd, sy'n arwain at erydu arfordirol, a gall gwasgfa arfordirol hefyd gael ei effeithio gan beirianneg 'meddal'.

8.207 Mae Polisïau DM14, DM15, DM16 DM17 a DM22 yn arbennig o berthnasol o ran cynigion rheoli'r arfordir.

## Mwynau

8.208 Dylai pob datblygiad arfaethedig (pob math o ddefnydd tir, tai, manwerthu ac ati) ystyried pa un a fyddai'r datblygiad yn cael effaith ar adnoddau mwynau'r Sir. Nodir y gofynion hyn yn Adran 7 (Polisïau Mathau Penodol o Ddefnydd Tir). Nodir polisïau sy'n rhoi manylion o sut y bydd ceisiadau i echdynnu mwynau yn cael eu penderfynu yn yr Adran honno hefyd. Mae Polisi S01 (Adran 6) yn nodi'r safleoedd a neilltuwyd yn benodol ar gyfer gweithfeydd mwynau ychwanegol.

## Datblygu Economaidd (B1, B2, B8 neu Unigryw)

8.209 Nodir polisïau sy'n rhoi manylion y gofynion yng nghyswllt unedau neu safleoedd defnyddiau cyflogaeth B1, B2, B8 neu Unigryw newydd yn ogystal â pholisïau sy'n ymdrin â'r newid defnydd o ddefnydd cyflogaeth presennol i fath arall o ddefnydd yn Adran 7 (Cynigion Mathau Penodol o Ddefnydd Tir). Mae Polisi S01 (Adran 6) yn nodi'r safleoedd a neilltuwyd yn benodol at ddibenion defnyddiau B1, B2, B8 neu Unigryw. Mae Polisïau S02 - S04 (Adran 6) yn berthnasol hefyd.

Draft

## Twristiaeth

8.210 Nodir polisïau sy'n rhoi manylion y gofynion yng nghyswllt unedau neu safleoedd twristiaeth newydd (llety a chyfleusterau) yn Adran 7 (Cynigion Mathau Penodol o Ddefnydd Tir). Mae Adran 7 hefyd yn nodi'r dull polisi o ran y newid defnydd o ddefnydd llety twristiaeth presennol i fath arall o ddefnydd. Nid oes unrhyw neilltuadau tir penodol wedi eu cynnwys yn y CDLl ar gyfer twristiaeth.

## Manwerthu

8.211 Nodir polisïau sy'n rhoi manylion y gofynion yng nghyswllt unedau neu safleoedd manwerthu newydd yn ogystal â pholisïau yn ymdrin â'r newid defnydd o ddefnydd manwerthu presennol i fath arall o ddefnydd yn Adran 7 (Cynigion Mathau Penodol o Ddefnydd Tir). Mae Polisi S01 (Adran 6) yn nodi safleoedd a neilltuwyd yn benodol ar gyfer defnydd manwerthu ychwanegol yn rhan o safleoedd defnydd cymysg. Mae Polisïau S02 - S04 (Adran 6) yn berthnasol hefyd.

## Gwastraff

8.212 Mae'n rhaid i bob math o ddefnydd tir (tai, manwerthu ac ati) roi sylw i'r hierarchaeth gwastraff fel y nodir yn Adran 7 (Cynigion Mathau Penodol o Ddefnydd Tir). Nodir polisïau sy'n rhoi manylion y gofynion yng nghyswllt cyfleusterau adfer adnoddau a rheoli gwastraff newydd yn Adran 7 hefyd. Mae Polisi S01 (Adran 6) yn nodi safleoedd a neilltuwyd yn benodol ar gyfer cyfleusterau adfer adnoddau a rheoli gwastraff ychwanegol yng Ngheredigion yn rhan o neilltuadau cyflogaeth.

Draft